

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Mehefin 2012

Rhif 423

50c

Cario'r Fflam



MARI DAVIES ydw i a dwi'n 15 oed ac yn byw yn Gerlan a chefais y fraint a'r anrhydedd o gludo'r fflagl Olympaidd dros Bont Borth ar Fai 29ain. Hoffwn ddiolch i Lisa Williams, cyn swyddog 5x60 yr ardal am fy enwebu. Cefais fy enwebu oherwydd fy mod yn Llysgennad Ifanc Aur ar gyfer y Gemau Olympaidd. Yn rhinwedd y swydd byddaf yn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r Gemau Olympaidd, ceisio cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon yng Ngwynedd a rhoi gwybod am egwyddorion y Gemau Olympaidd. Cefais fy enwebu i fod yn Llysgennad oherwydd fy mod yn hwylio fel rhan o Garfan Cymru a Phrydain ac yn mynd i gystadleuthau rhyngwladol yn cynrychioli Cymru a Phrydain.

Roedd y profiad o gael bod yn ran o daith y Fflagl Olympaidd yn wych! Mae'n brofiad bythgofiadwy a dwi'n teimlo yn freintiedig iawn fy mod wedi cael bod yn ran o'r Gemau. Roedd hi'n gychwyn cynnar i mi ar fore Mai 29ain oherwydd roedd gofyn i mi fod ym Miwmares erbyn 5:30! Chysgais i ddim llawer y noson gynt oherwydd fy mod yn edrych ymlaen gymaint ac yn teimlo ychydig yn nerfus. Roeddwn i'n poeni am faglu yn fwy na dim! Ond ar y diwrnod aeth popeth yn wych. Roeddwn i hefyd yn fwy ffodus 'na mae rhai pobl yn wybod, gan fy mod wedi cael rhedeg 600m yn lle'r 300m arferol. Roedd hyn hefyd yn golygu fy mod wedi cael cario dwy fflagl euraidd hardd. Roedd hi'n fore ychydig yn emosiynol i mi. Doeddwn i ddim yn disgwyl tyrfa hanner y maint a welais wrth gamu oddi ar y bws. Hoffwn ddiolch i bawb am ddod i weld y fflam, a hefyd i fy nghefnogi i. Roedd hi'n braf gweld llawer o wynebau cyfarwydd yn y dyrfa fawr, rhai ohonynt yn ffrindiau a ddaeth i'm gwyllo cyn mynd i'r ysgol. Diolch genod! Dwi'n teimlo fy mod wedi cael diwrnod anhygoel y byddaf yn ei gofio weddill fy oes.

Yn ystod y bore bŵm yn ymweld â'r Ysgol Feithrin yn y Caban yn Gerlan, Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen y Bryn er mwyn dangos y fflagl a rhannu fy mhrofiadau. Diolch yn fawr am y croeso cynnes a gefais a gobeithiaf fod gweld y fflagl yn eu hysgol yn ysbrydoliaeth i bobl ifanc yr ardal gymryd rhan mewn chwaraeon.

Sioe Dyffryn Ogwen wedi ei chanslo

Cafodd Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen, a oedd i fod i gael ei chynnal yn Nôl Ddafydd ar 9 Mehefin ei chanslo am y tro cyntaf erioed oherwydd y tywydd.

Sefydlwyd y sioe 40 mlynedd yn ôl ac roedd edrych ymlaen at y dathlu. Cadeirydd y Sioe yw Alwyn Lloyd Ellis. "Rydan ni wedi bod yn lwcws efo'r tywydd dros yr holl flynyddoedd," meddai "ac mae'n drist iawn ein bod wedi gorfod canslo eleni."

Mae'r sioe yn wynebu colled ariannol enfawr oherwydd y llifogydd.

DARLITH GOFFA DAFYDD ORWIG 2012

"A oes Bywyd yn y Bydysawd ?"

**Traddodir y ddarlith gan
Yr Athro Deri Tomos
yn Llyfrgell Bethesda**

**Nos Lun 18fed Mehefin 2012
7.30 o'r gloch**

**Croeso Cynnes i Bawb
Mynediad am Ddim**

Cwmnwsydd Dyffryn a Dyffryn Dyffryn



Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Dafydd Fôn Williams ☎ 601583
dafydd@gerlsn.wanadoo.co.uk

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Dewi Llewelyn Siôn.

Golygydd Mis Gorffennaf fydd Dewi A. Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda LL57 3DT (01248) 602440. dewimorgan@fsmail.net

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 4 Gorffennaf, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 19 Gorffennaf yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Mehefin

- 16 Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 18 Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Diwrnod Agored yn Awel y Nant, Bethesda. 10yb – 10yh.
- 23 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 26 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 27 Te Mefus yn Festri Bethlehem, Talybont, am 7.0
- 28 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 28 Merched y Wawr, Bethesda. Taith Ddirgel.
- 30 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 - 12.00

Mis Gorffennaf

- 05 Sefydliad y Merched Carneddi. Gwibdaith Addysgiadol.
- 07 Bore Coffi Clwb Camera Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen, 10.00 – 12.00
- 13 Noson Goffi. Canolfan Rachub. 5.30 – 7.30
- 14 Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen. Llys Dafydd Bethesda. 10.00 – 2.00.
- 14 Bore Coffi NSPCC. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 18 Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Neuadd Talgai. Yn y neuadd am 7.00
- 21 Bore Coffi Eglwys y Santes Fair Tregarth. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 25 Plaid Lafur Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
- 27 Bingo at Radio Ysbyty Gwynedd. Canolfan Glasinfryn am 7.30.
- 28 Bore Coffi Neuadd Talgai. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.
- 31 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Mehefin

£30.00 (64)
Rita Bullock, 30 Maes y Garnedd, Bethesda.

£20.00 (169)
Rita Lewis, 2 Pantglas, Bethesda.

£10.00 (119)
Helen Wyn Williams, 5 Llwyn Bleddyn, Rachub.

£5.00 (20)
Andre Lomozik, 7 Rhos y Coed, Bethesda..

Rhoddion i'r Llais

- £12.50** Elwyn Hughes, Ystradgynlais
- £10.00** Carys a David O'Connor a'r Merched, Sling, Tregarth.
- £ 5.00** Er cof am fam a nain annwyl, Catherine Mary Owen, 22 Maes Ogwen, a hunodd yn dawel ar 4 Mehefin 1978 yn 60 mlwydd oed. Oddi wrth Llywela O'Brien.
- £20.00** Er cof am Albert Williams, 21 Glan Ffrydlas, Bethesda a fyddai wedi bod yn 90 oed ar 10 Mai 2012 oddi wrth Muriel a'r teulu.
- £25.00** Er cof am Rhiannon Rowlands a fyddai'n dathlu ei phenblwydd ar 29 Mehefin, oddi wrth Arthur, Olwen, Myrddin, Huw a'r teulu.

Gwerthfawrogiad

Mae Mr Emlyn Evans wedi penderfynu ymddeol o'r Panel Golygyddol wedi blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr. Dymuna Llais Ogwan ddiolch iddo am ei holl waith cydwbyddol a thrylwyr wrth olygu'r Llais. Diolch hefyd am ei gefnogaeth ymarferol mewn amryfal ffyrdd. Byddwn yn gweld eich colli Emlyn! Ymddeoliad hapus i chi!

Hysbysebwrch yn Llais Ogwan

Cysylltwch â Neville Hughes

01248 600853

nev_hughes@btinternet.com

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru

Nyth y Gân

Henaint

Ble'r aeth y seren ddisglair
Oedd yn dy lygaid di,
A'r heulwen oedd bob amser
Yn gwenu arnom ni?

Fe gefaist wrth heneiddio
Flynyddoedd digon hallt,
A'r lloer yn awr sy'n mynnu
Bod yno yn dy wâl.

Y seren ddaw ar brydiau
A'r heulwen yn ei hôl
Wrth i ti fagu'r wyrion
Yn dyner yn dy gôl.

Priodi

Hir oedi fu'r cariadon yn eu byd
Uwchben eu gofidion,
A'r ddau'n llawn o ddagrau llon
Law yn llaw'n tyngu llwon.

Telynau Natur

Y delyn yw'r awel wrth fwthyn bach tawel
Sy'n chwarae bob dydd wrth y drws,
Ac yno mae'r blodau'n ymateb i'r nodau
Trwy ddawnsio mewn gwisgoedd mor dlws.

Eu dawns sydd yn denu yr hwn sy'n trwm ganu
A glanio ar wefus sawl un,
Ac yna ffrwythloni a chael ei fodloni
Cyn dychwel i'w gwch bach ei hun.

Ar frigyn mae'r fronfraith a'r gân fwyaf perffaith
I'w chlywed yn braf ac mor glir,
A rhaid ydi gwrandio â phleser fan yno
Ar hon fu'n telori mor hir.

Mae'r awel a'r gwenyn a'r fronfraith o'r cychwyn
Yn tiwnio'u telynau mor gain
I greu hyfryd nodau a thrwy eu bywydau
Mewn gerddi neu lwyni y drain.

Y Gell

Yno, nid oes llawenydd, na rhyddid
Fél y rhoddo'r mynydd;
Drws dur a sad oer y sydd
Yn boen i'r llygaid beunydd.

Dafydd Morris

Y Caribî

Pyrth coedwig nef fel perthi – blodeuog,
Blawd ewyn ar dwyni;
A phrydferth fel coelcerthi,
Alawon lloer ar lan lli.

Molly, yr Ast Fach

Anwylyn ydyw Molly,
Un hardd a doniol yw hi.
Tirion gwirion ei gwên,
Un hoff yw, un a'i phawen
Feddal, a chwarae fyddwn;
Hi'n falm cu fel y mae cwn.
Dwys yw ei henaid iasol,
A'i nwyd mwyn wrth neidio o'm hôl;
Bwyta, cysgu, llyfu llaw,
A'i dwli'n sibrdw alaw.
Oriau llon rhag oriau lleddf,
Iacháu enaid â'i chynneddf.
Llawn asbri a hwyl anwylyn,
Chwarae'n deg a chwarae'n dynn.
Rhaid canmol dwli Molly,
Nid cath yw Molly ond ci.

Goronwy Wyn Owen

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Capeli ac Eglwysi Dyffryn Ogwen – Rhan 3

Dyma ran olaf y rhestr o addoldai Dyffryn Ogwen. Pwysleisiaf unwaith eto mor brin ac annigonol yw'r ffeithiau ac mor barod ydw i i dderbyn unrhyw ychwanegiad neu gywiriad.

P

Pantdreiniog. Crybwyllodd fy ffrind, John Ffranco Griffith (JFfG o hyn ymlaen), iddo ddod o hyd i gofnod am gapel wedi'i godi ym 1787 ym Mhantdreiniog.

Peniel (Llanlechid) (MC). Codwyd ym 1834, ailgodwyd ym 1838 a thrydyddgodwyd ym 1876-7. Chwalwyd tua 1991. Mae cofnod gan JFfG mai 1787 oedd dyddiad codi'r capel cyntaf ar y safle.

Peniel (Mynydd Llandygái) (MC). Sefydlwyd yr Achos ym 1845, codwyd y Capel ym 1871. Caewyd rywdro yn y 1950/60au ac mae'n debyg iddo gael ei chwalu tua diwedd y 1960au.

Peniel (Rhiwlas) (A). Codwyd ym 1865. Deil yn agored.

Pentir (MC). Codwyd capel bychan ym 1817 yn Waun Pentir. Codwyd capel newydd i gymryd ei le (ym Mhentir) ym 1827 ac ailgodwyd ym 1868. Pan godwyd capel newydd ar y bryn, mae'n bosib i'r hen gapel gael ei addasu yn rhes o bedwar tŷ a alwyd yn Queen's Terrace (a thrwy y diweddar Glynne Thomas ac Owi Roberts ailenwyd y rhes yn Hen Gapel tua diwedd y 1990au). Caewyd Capel Pentir tua 2002 a throwyd yn dŷ.

Pen-y-groes (Tre-garth) (MC). Codwyd ym 1837, helaethwyd ym 1840. Chwalwyd y Capel tua 1993 ond parhawyd i gynnal gwasanaethau yn y Ffestri. Daeth yr Achos i ben ddiwedd 2008 ac unwyd ag Eglwys Unedig Bethesda. Mae byngalo wedi'i godi ar y safle ychydig flynyddoedd yn ôl.

Pisgah (Rhiwlas) (W). Agorwyd ym 1863. Deil yn agored.

R – S

Rehoboth (Parc Moch) (W). Agorwyd ym 1831. Dychwelodd yr aelodau i'w mam eglwys – Shiloh, Tregarth – ym 1836.

Salem (Carneddi) (A). Agorwyd ym 1870. Caewyd ym 1971 ac fe'i chwalwyd ym 1972. 1871 JFfG

Salem (Rachub) (W). Agorwyd ym 1877. Roedd y capel cyntaf ym mhen draw Stryd Salem (ac addolid yno tua 1837) cyn i'r gynulleidfa symud i'r capel newydd ym 1877. Deil yn agored. 1830 JFfG

Saron (Ty'n y Maes) (A). Agorwyd ym 1860. Caewyd ym 1970 a throwyd yn dŷ tua 2002. 1861 JFfG

Soar (W) (Glasinfryn). Ni wn fawr ddim o'i hanes heblaw iddo gael ei droi'n storfa i ffarmwr ac wedyn i gwmni dodrefn. Mae plac yn dal uwch ben y drws ffrynt: 'Lease of the site was granted by the Right Honourable George Sholto Gordon, Lord

Penrhyn, 1892' ond roedd yr achos eisoes wedi'i sefydlu yn Soar, fel 'cangen' o Gapel Shiloh, Tre-garth, flynyddoedd cyn hynny; cyfeirir ato gan Hugh Derfel Hughes yn ei Hynafiaethau ... a gyhoeddodd ym 1866, Trowyd yr hen gapel yn dŷ ar dro'r ganrif bresennol.

Siloam (Bethesda) (W). Agorwyd i ddechrau yn Stryd y Felin (Cae Star), trowyd y safle yn dai annedd (Siloam Square) a chodwyd capel newydd ar Allt Pen-y-bryn ym 1872.

Shiloh (Tre-garth) (W). Agorwyd ym 1828, ailgodwyd ym 1858 a thrydyddgodwyd ym 1896. Deil yn agored.

T – Y

Tabernacl (Bethesda) (B). Codwyd ym 1866. Caewyd tua 1978. Adnewyddwyd gan Gangen Bethesda o Gymdeithas Arlunwyr a Dylunwyr Cymru. Llosgwyd y capel yn ulw ym mis Gorffennaf 1998 a chafodd ei ddimchwel ym mis Ebrill 2001. Safle tri o dai newydd erbyn heddiw.

Treflys (Gerlan) (A). Agorwyd ym 1866 (1865 yn ôl JFfG), caewyd tua 1973 a chwalwyd y capel ym 1974.

Tros y Ffordd (A). Codwyd tua 1820. Trowyd yn dŷ ac yna'n swyddfa cyn iddo ddiflannu dan domennydd Chwarel y Penrhyn

Ysgoldy (Rhiwlas) (MC). Sefydlwyd yr Achos ym 1847, codwyd y capel ym 1862. Caewyd tua 2000 ac mae stad fach o dai bellach ar y safle.

Rwy'n siŵr y bydd rhai o drigolion Dyffryn Ogwen, wedi darllen y rhestrau o addoldai yn y Dyffryn, wedi sylweddoli mor brin yw'r ffeithiau mewn sawl achos (ac efallai heb fod yn gwbl gywir ambell dro, chwaith). Da o beth fyddai i rywun fynd ati i ymchwilio'n fanylach a dyfnach i hanes addoldai'r Dyffryn – beth amdani?

Wrth gloi, mae'n werth sylwi bod rhyw 57 o addoldai wedi eu rhestru uchod. Er bod enghreifftiau o uno capeli a gorgyffwrdd o'r herwydd, ac er nad oedd pob un o'r addoldai yn agored yr un adeg yn union, hoffwn gyflwyno'r ffigurau bras a ganlyn i nodi faint sy'n dal i gael eu defnyddio heddiw:

Capeli - 9

Bethania (Bethesda) (A); Bethel (Rachub) (B); Bethlehem (Tal-y-bont) (A); Bethmaaca (Glasinfryn) (A); Carmel (Rachub) (A); Eglwys Unedig Bethesda (MC); Peniel (Rhiwlas) (A); Pisgah (Rhiwlas) (W); Shiloh (Tre-garth) (W)

Eglwysi - 7

Eglwys Crist Glanogwen (Bethesda); Eglwys Goffa Robertson (Coetmor) – claddedigaethu'n unig; Eglwys Llandygái; Eglwys Maes y Groes; Eglwys St Cedol (Pentir); Eglwys St Mair a St Ann (Mynydd Llandygái); Eglwys (Babyddol) Seintiau Pius X a Rhisiart Gwyn (Bethesda).

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902

Geni

Llongyfarchiadau i Emma a Siôn,
55a Stryd Fawr, ar enedigaeth
merch fach, Catrin Mai ar 14 Mai.

Diolch,

Dymuna Mrs Glenys Lloyd Jones,
24 Glanffrydlas, ddiolch o galon i
deulu a ffrindiau am eu cefnogaeth
a'u caredigrwydd yn ystod ei
arhosiad yn yr ysbyty. Diolch
hefyd am y cardiau a'r anrhegion a
dderbynwyd ganddi ar ei phen-
blwydd arbennig. Diolch yn fawr.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y rhai a
fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, yn
eu plith Sara Thomas, Rhes
Gordon a Mrs Beryl Williams,
Maesygarneidd.

Marwolaethau

Ar 10 Mai yn ei chartref, 20 Llawr
y Nant, bu farw Mr Derek
Vaughan Gladwysh yn 35 oed.
Cymar Catrin a thad Holly a
Derek, mab Mr Derk Gladwysh
a'r ddiweddar Mrs Freda
Gladwysh, brawd Nigel ac
Amanda ac ewythr i'w plant.
Cynhaliwyd ei angladd fore dydd
Iau 17 Mai, gyda gwasanaeth yn
Eglwys Crist, Glanogwen a
mynwent Eglwys Coetmor.
Gwasanaethwyd gan y ficer, y
Barchedig Nia Williams.
Cydymdeimlwn â chi fel teulu yn
eich profedigaeth fawr a sydyn o
golli Derek.

Yn ei gartref yng Nghaernarfon,
yn 71 oed, bu farw Mr John
Kenneth Owen, mab y diweddar
Mr a Mrs John Owen; tad
Anthony, Vincent, Paul a'r
diweddar Ellen a Christopher;
brawd Iris a Terry a thaid a hen-
daid. Cynhaliwyd ei angladd
ddydd Gwener 18 Mai gyda
gwasanaeth a chladdu yn Eglwys
Coetmor. Gwasanaethwyd gan y
ficer, y Barchedig Nia Williams.
Anfonwn ein cydymdeimlad atoch
fel teulu.

Ar 26 Mai yn ei gartref, 5 Arafa
Don, bu farw Mr Brian Costello
yn 66 oed. Roedd yn briod i Mrs
Nerys Costello ac yn dad annwyl i
Brian, Craig, Diane a Paula ac yn
fab-yng-nghyfraith i Mrs Vera
Jones, Glanffrydlas. Cynhaliwyd
gwasanaeth fore dydd Iau 31 Mai
yn Eglwys Crist Glanogwen a
mynwent Coetmor.

Gwasanaethwyd gan y Parchedig
John Matthews a'r Barchedig
Jennie Hood. Cydymdeimlwn â chi
Nerys, a'r teulu i gyd, ar golli
Brian.

Croeso Adref

Croeso adref i Mr Percy Parry, 43
Erw Las a dreuliodd gryn amser yn
yr ysbyty ers mis Ionawr.

Croeso

Mae Kevin a Nia Williams wedi
symud o Gefn Cwlyn i Erw Las.
Croeso mawr iddynt i'w cartref
newydd.

Diolch

Mae teulu'r ddiweddar Menna
Charles Armstrong (Morris gynt)
yn ddiolchgar iawn am bob arwydd
o gydymdeimlad ar achlysur colli
mam, priod, merch a chwaer
annwyl iawn. Diolch hefyd am y
rhoddion ariannol tuag at elusen
Hospis Tŷ'r Eos, Wrecsam.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Cafwyd bore coffi llwyddianus
iawn yn Neuadd Ogwen fore
Sadwrn, 5 Mai, a gwnaed elw o
£295.00. Roedd yno raffl rhagorol,
gyda diolch i Vernon am gasglu
gwobrau gan fasnachwyr y Stryd
Fawr. Diolch yn fawr iawn i chi i
gyd am eich haelioni a diolch i'r
aelodau am bob cymorth i wneud y
bore yn llwyddiant. Diolchwyd i
bawb gan y Cadeirydd, Mr Eric
Jones. Anfonwyd rhodd o £50.00 at
waith Ysgol Dyffryn Ogwen.

Gwibdaith Ddirgel

Dydd Mawrth 26 Mehefin byddwn
yn cychwyn o Lanffrydlas am 8.24
y bore, Adwy'r Nant 8.30, Rachub
8.35, Tregarth 8.45.

Albert Williams

Dymuna teulu y diweddar Albert
Williams, 21 Glanffrydlas,
Bethesda, ddiolch o galon i
ffrindiau ac i bawb a ddangosodd
gydymdeimlad a charedigrwydd
tuag atynt yn eu profedigaeth o
golli gŵr, tad, taid a hen daid
annwyl.
Diolch i'r Parchedig Geraint
Hughes am y gwasanaeth yn yr
Amlosgfa, Bangor, ac am ei
gymorth a'i garedigrwydd i ni fel
teulu. Diolch hefyd am yr holl
gardiau a'r rhoddion tuag at y
Gymdeithas Alzheimer. Diolch yn
arbennig i staff Plas Garnedd,
Llanberis am eu gofal ac i Gaffi
Coed y Brenin am y bwyd
ardderchog, ac i Stephen Jones
am ei wasanaeth a'i gymorth.

Diwrnod Agored

yng nghartref Eira a Joe
29 Ffordd Frydlas.

Raffl a bwrdd gwerthu

Dydd Llun 18 Mehefin
10.00 y.b. tan 10.00 y.h..
Mynediad £1.00
Croeso cynnes i bawb

Merched y Wawr Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod olaf ond un y tymor yng Nghanolfan Moelyci.
Yn hytrach nag ymgynull yn ein cartref arferol sef Canolfan Cefnfaes,
daethom ynghyd mewn carafan ym Moelyci. Mawr oedd y croeso i ni
ac o dan lywyddiaeth Margaret Jones, cawsom gyfarfod byr i drefnu at
y flwyddyn nesaf yn bennaf. Roeddem wedi cyfarfod wythnos ynghynt
yn nhy'r Llywydd i drefnu rhaglen ac i gael golwg ar y gwaith a wnaed
o dan arweiniad Margaret a Jên, ei merch, ar gyfer addurno pabell
Merched y Wawr yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghlynllifon.

Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi yn helpu gyda'r gwaith. Criw bach
a ddaeth ynghyd i Foelyci ac anfonwn gofion at bawb oedd ddim yn
dda. Gobeithio y bydd pawb yn medru dod ar y Daith Ddirgel sydd yn
cael ei threfnu gan Glenys Clark. Llongyfarchwyd Gwenno Evans ar
ddathlu penblwydd arbennig a dymunwyd yn dda i'r plant fydd yn
sefyll arholiadau y mis yma a'r rhai fydd yn cystadlu neu'n cymryd rhan
yng nghyngerddau Eisteddfod yr Urdd.

Ar ôl cael paned dderbyniol iawn yn y garafan cawsom beth o hanes y lle
a'r gwaith a wneir yno. Roeddem wedi synnu fod cymaint o waith yn cael
ei wneud yno a ninnau yn gwybod fawr ddim am y lle. Os na fuoch yno
eisoes, da chi ewch draw i weld y lle ac i brynu yn y siop. Cewch groeso
mawr ganddynt, rwyn siwr. Diolchodd Jennie Jones am y croeso.
Byddwn yn mynd ar wibdaith y mis nesaf a chofiwch ein bod wrthi yn
paratoi rhaglen ddiddorol ar gyfer mis Medi. Croeso mawr i aelodau
newydd ymuno gyda ni.

Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Anfonwn gofion at ein holl aelodau sydd yn wael ar hyn o bryd, rhai yn
disgwyl mynd i'r ysbyty ac eraill yn dechrau gwella ar ôl eu triniaethau.
Gobeithio y daw'r haf a gwell iechyd i bawb. Mae gweithgareddau'r
gaeaf yn dirwyn i ben ond mae'r Cyfarfod Gweddi ddechrau'r mis a'r
Seiat yn dal ymlaen. Dal yn brysur hefyd mae Clwb Nos Fawrth y bobl
ifanc a'r Clwb Celf bob yn ail fore Mercher ac fe ellwch gael paned ar
fore Iau. Croeso i holl gyfarfodydd yr eglwys.

Eurwen Morris oedd yn gyfrifol am Gyfarfod Gweddi mis Mai ar
ddiwrnod cyntaf y mis a chafodd gymorth gan Minnie Lewis a'r Parch.
John Owen. Bu rhai ohonom yng nghyfarfodydd Undeb Athrofa'r Bala
yn Llandudno y diwrnod hwnnw. Pwnc y Gynhadledd oedd Y Beibl
Heddiw a chawsom ddarlithoedd arbennig iawn gan Dr. Gareth Ll.
Jones a Dr. John Tudno Williams. Drannoeth, aeth rhai ohonom i Sasiwn
y Chwirydd yn Llanidloes.

Bu nifer o'r plant yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd
er mwyn cymryd rhan yn y Gwasanaeth bore Sul a phasiant y plant. Pob
hwyl i'r rhai fydd yn cystadlu. Mae rhai eisoes wedi cael llwyddiant yn
yr adrannau celf a llenyddiaeth. Bore Sul, 20 Mai, cawsom wasanaeth
arbennig gan y plant a'r athrawon, sef Y Neges Heddwch. Gwobrwyd y
plant hefyd am eu gwaith yn dysgu adnodau ac emynau.
Roedd 27 Mai yn Sul y Pentecost a chafwyd gwasanaethau arbennig o
dan ofal Parch. Cynwil Williams, Caerdydd.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

Gwasanaethau'r Mis

17 Mehefin
Mr. T. Alun Williams
24 Mehefin
Parch. Harri Owain Jones
1 Gorffennaf
Parch. Trefor Lewis
8 Gorffennaf
Y GWEINIDOG
15 Gorffennaf
Parch. John Owen (Rhuthun)

Capel Bethania Oedfaon

17 Mehefin:
Y Parchedig Gwynfor Williams
01 Gorffennaf
Y Parchedig John Owen
15 Gorffennaf
Y Parchedig Gwynfor Williams
Mis Awst: Wedi Cau

Oedfaon am 5.30 o'r gloch
Croeso Cynnes i Bawb

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

yng Nghapel Jerusalem
Estynnir croeso cynnes i
bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

'LLENWY'R CWPAN'
Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a
haner dydd

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Mrs Olwen Newis, Rhes Bryn Owen sydd yn yr ysbyty, ac at Keith Thomas. Llwynbleddyn sydd wedi derbyn llawdriniaeth i'w ben-glin.

Cydymdeimlo

Gyda thristwch y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Tom Ffrancon Jones, Maes Bleddyn – Twm Ffrancs i'w lu o gyfeillion. Cymeriad hoffus, bob tro â gwên, er iddo wynebu salwch creulon dros y blynyddoedd diwethaf. Ei ddiddordeb mawr oedd bywyd awyr agored. Anfonwn ein cydymdeimlad at Eleanor a'r teulu oll yn eu colled.

Cydymdeimlwn hefyd gydag Amanda a Stephen, Stryd Britannia, a Derek Gladwysh, Llanfairfechan ar achlysur trist iawn mawrwolaeth Derek, mab a brawd yn ddiweddar.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Glenys a John Temple Morris, Maes Bleddyn yn eu profedigaeth o golli mam Glenys.

Llongyfarchiadau

i Mr a Mrs Gwyn Jones, Lôn Groes ar yr achlysur hapus o ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab i Andrew a Laura

ym Mangor ar 18 Mai, Maccsen Gwilym. Llongyfarchiadau hefyd i Gwyneth Jones, Stryd Fawr ar ddod yn hen nain ac i Siân sy'n fodryb am y tro cyntaf.

Dymuna Andrew a Laura ddiolch yn fawr am yr holl anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth Maccsen Gwilym Jones.

Pen-blwydd Hapus

i Iain Scott y Swyddfa Bost ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Gobeithio ei fod wedi mwynhau'r dathlu.

Diolch

Dymuna Siân a Neil, Bryn, Llanllechid ddiolch o galon am y negeseuon, galwadau ffôn a chardiau a dderbyniwyd tra bu Siân yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar

Geni

Llongyfarchiadau i Emma a Siôn, Maes Bleddyn ar enedigaeth merch, ac i Nain a Taid, sef Julie a Dewi, ac i Edrich ac Alice ar ddod yn hen nain a thaid.

Cyfarchion Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Chris Jeffreys, 17 Maes Bleddyn, a fydd yn 50 mlwydd oed ar 3 Gorffennaf. Dymuniadau gorau oddi wrth Llinos, Louise, Craig a Sophie.

Canolfan Rachub

Noson Goffi

Nos Wener, 13 Gorffennaf
5.30 - 7.30 yr hwyr

Stondinau a Raffl

Mynediad £1.00

Yr elw er budd Gerallt Jones
(Trefnir gan Bwyllgor y Ganolfan)

Capel Carmel



Bu aelodau'r Clwb Dwylo Pysur am dro o amgylch Gwarchodfa Natur Aberogwen gyda Mr Ben Stammers yn arwain. Diolch iddo am ein tywys ni gan ddangos adar amrywiol sydd ar lan y môr, ar yr afon ac ar y tir. Cawsom noson ddiddorol dros ben er fod y gwynt ychydig yn fain. Bydd Mari Rowlinson, un o aelodau'r Clwb, yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ddechrau Mehefin ac rydym i gyd yn y Clwb am ddymuno pen-blwydd hapus iddi. Cawsom barti yn y festri i ddathlu'r pen-blwydd a rhoddwyd anrheg i Mai gan y bobl ifanc. Mae'r Clwb ar ei wyliau rwan dros gyfnod yr haf, a byddwn yn ail ddechrau ym mis Medi.

Helpa Ferfa



Ar fore Sadwrn, 26 Mai, roedd Pwyllgor Canolfan Rachub wedi trefnu "Taith Ferfa Noddedig" i godi arian at y Ganolfan. Cymerwyd rhan gan bedwar o bobl a dyma lun dau ohonynt ar gychwyn y daith, sef Godfrey Northam a Gruff Elis-Williams. Gwthiwyd y ferfa drwy Hen Barc i Rachub ac o amgylch yr ardal. Deallwn fod y cyfanswm a gasglwyd o gwmpas £300. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr. Gareth Lewis, Bethesda, am fenthyg y ferfa.

CAPEL CARMEL Gwasanaethau

Mis Mehefin
24 Mrs Mererid M Williams

Mis Gorffennaf
01 Parch. Marcus W. Robinson
08 Mr J. O. Roberts
15 Y Gweinidog 2.00 a 5.00

Pob gwasanaeth am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.
Dwylo Pysur Nos Wener 6.30

Croeso Cynnes

CAPEL BETHEL Gwasanaethau

Mis Mehefin
24 Mr Jack Roberts

Mis Gorffennaf
01 Parch. Merfyn Jones
08 Y Gweinidog
15 Parch. Dafydd Job
22 Parch John Rice Rowlands

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.

Croeso cynnes i bawb.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi,
Bethesda ☎ 600965



Llongyfarchiadau calonnog i Cheryl a Steven a briododd ar 31 Mawrth 2012, a phob dymuniad da iddynt at y dyfodol

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Sefydliad y Merched

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Mai gan Ann, y llywydd. Yn absenoldeb Sheila darllenodd Eirlys y cofnodion. Daeth nifer o ymddiheuriadau i law ac yna darllenodd Ann lythyr y ffederasiwn. Nodwyd nifer o bwyntiau gan gynnwys y diwrnod rhyngwladol a gynhelir yn Llanberis ddiwedd mis Mehefin.

Un penderfyniad oedd i'w roi gerbron y cyfarfod blynyddol eleni ac roedd pawb o'r farn bod gwir angen mwy o fydwragedd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Dwygyfylchi i bleidleisio ar ein rhan yn Llundain. Cafwyd swper bach wedi ei ddarparu gan yr aelodau. Enillwyd y raffl gan Nancy Williams.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Merfyn Jones, 21 Pentre Llandygái a'r teulu yn eu galar o golli chwaer yng nghyfraith Merfyn, sef Mrs Margaret Hefina Jones, Maes Hyfryd, Gaerwen yn 63 mlwydd. Bu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Mai a chynhaliwyd ei hangladd yn Amlogfa Bangor ar ddydd Iau, 17 Mai. Mae'n meddyliau gydag Edwin ei gŵr, a Karolyn, Nicola, a'u teuluoedd.

Newyddion Trist

Ychydig ddyddiau cyn i'r Llais fynd i'r wasg clywsom am farwolaeth Miss Betty Ellis, Cil-Marian, Bryn, Llandygái yng nghartref nyrsio Brynsiencyn ar 25 Mai. Cawn gyfle i ddweud rhagor yn y rhifyn nesaf ond yn y cyfamser anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu a'i ffrindiau.

Gwaeledd

Rydym yn cofio am y cleifion y mis hwn eto: Mrs Gill Bullen, Mr a Mrs Ernie Coleman, Jim a Beryl Hughes, Mair Leverett, Olwen Lytham, Gwen Morsley, Betty Williams, Dorothy Proudley-Williams, Joan Willis a phawb arall sydd yn wael. Dymunwn adferiad llwyr a buan i bawb.

Bingo

Cynhaliwyd Bingo yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth, 15 Mai ac fel arfer roedd yn noswaith hwyliog iawn. Roedd Pauline a Raymond wedi bod yn brysur yn trefnu popeth a diolch i'r ddau, i'r merched oedd yn y gegin ac, wrth gwrs, i'r rhai oedd yn bresennol.

Ffarwelio

Bydd Tina, Jamie a Jacob, Pennant, Pentre, Llandygái yn symud i fyw i Ddwygyfychi, Conwy yn ystod mis Mehefin. Gobeithio y bydd y tri yn hapus yn eu cartref newydd. Byddwn yn eu colli'n arw ond gwyddom y bydd Jacob yn dod yn aml i weld Nain a Taid yn rhif 21,

Eglwys Sant Tegai

Cydymdeimlad

Rydym yn cydymdeimlo gyda Ruth, Scott a Callum, 2 Pantrafon, Mynydd Llandygái yn eu profedigaeth o golli Modryb i Ruth (chwaer y ddiweddar Nancy Roberts). Bu farw Mrs May Morgan ar 12 Mai yn dawel yng Nghartref Gofal Plas Garnedd, Llanfairpwll, ar ei phen-blwydd yn 91 oed. Cynhaliwyd yr angladd cyhoeddus yn Amlogfa Bangor ar ddydd Iau, 17 Mai. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys hefyd i Gareth, Heulwen a'r teulu oll yn eu colled.

Diolch

Hoffem ddiolch i bawb fu'n llafurio'n galed yn y gwres llethol i dacluso'r fynwent a'r rhodfa o'r drws i'r giat, ar ddydd Sadwrn 26 Mai. Mae'n edrych yn ddigon o ryfeddod! Diolch i'r rhai a fu'n tacluso hefyd yn ystod yr wythnos – bendith arnoch! Roedd y cinio yn Neuadd Talgai yn flasus iawn – diolch ferched. Roeddem yn falch dros ben cael cwmni Mrs Sharon Phennah o Ogledd Carolina eleni eto a bu'n sgwrsio am yr hyn y mae wedi ei ddarganfod ymhellach am ei hynafiaid oedd yn byw yn Llandygái yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cawsom gyfarfod â Sharon Phennah yng ngwasanaeth y Foreol Weddi ar ddydd Sul, 27 Mai gyda'r Athro Ian Russell yn cymryd y gwasanaeth a Mr Geraint Gill wrth yr organ.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion at Mrs Jane Couch, Mrs Berys Edwards, Mr Gwynne Edwards a Mr Harry Gross sy'n dal i fod yn wael yn eu cartrefi. Brysiwch i wella.

Pen-blwydd

Dymunwn ben-bwydd hapus i Huw Llewelyn ar 30 Mehefin. Gobeithio y cei ddiwrnod i'w gofio. Rwyf yn lwcus mai ar ddydd Sul y mae'r dathliad ac na fydd angen i ti fynd i'r ysgol.

Diolch

Bore Mercher, 2 Mai, daeth y Parchedig Ken Padley, Bangor i gymryd y gwasanaeth yn absenoldeb ein ficer, y Parchedig John Matthews. Roedd John a Sue wedi cymryd egwyl fer i ymweld â theulu Sue yn y Fenni. Diolch yn fawr i'r Parchedig Ken Padley am ddod atom. Roeddem yn falch o'i gyfarfod.

Rydym hefyd yn falch fod Mr John Morrell wedi gwella'n ddigon da i ddod atom fore Mercher. Gwyddom ei fod yn cael andros o waith cerdded ond y mae'n mynnu mynd at yr allor bob tro i gael ei gymun. Daliwch ati John. Roedd yn braf gweld Miss Nesta Hughes wedi dychwelyd o'i gwyliau ac yn ôl

pob sôn wedi mwynhau ei hunan yn ardderchog. Diolch o galon i Muriel am gymryd rhan yn y gwasanaeth, ymorol am y te, y coffi a'r bisgedi ac am edrych ar ein holau amser y baned. Mae ein dyled yn fawr i chi.

Neuadd Talgai Llandygái

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

**Nos Fercher 18 Gorffennaf
am 7.00 o'r gloch**

Croeso i Bawb

Talybont

**Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853**

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i John Edward Jones, Bro Awel, Dolhelyg, a gymerwyd i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hen Daid a Nain

Llongyfarchiadau i Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ar ddod yn hen daid a hen nain am yr wythfed tro. Croeso mawr i Lleucu a gyrhaeddodd ddiwedd mis Mai.

Eglwys Maes y Groes

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Betty Ellis, Cil Marian, Llandygái ar y 25ain o Fai. Bu farw yn dawel yng Nghartref Nyrsio Glan Rhos, Brynsiencyn. Merch ieuengaf Mr a Mrs Robert Dewi Ellis, Tŷ Uchaf gynt, a chwaer arbennig y diweddar Megan. Bydd bwllch enfawr ar ei hôl gan iddi fod yn aelod ffyddlon a gweithgar yn yr Eglwys am flynyddoedd.

Cynhaliwyd ei hangladd yn yr Eglwys ar y 1af o Fehefin dan arweiniad ein ficer y Parchedig John Mathews gyda Barry Wynne wrth yr organ. Roedd nifer dda yn bresennol i dalu'r deyrnged olaf i Betty. Fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr Eglwys.

Hoffem fel aelodau estyn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu yn eu profedigaeth.

Teuliwyd noson hwyliog yn yr Ysgoldy ar nos Fercher 23ain o Fai pryd cynhaliwyd noson o Fingo. Diolch i Hefina Watts ac Ann Pritchard am fod yn gyfrifol am alw'r rhifau ac i Phyllis Davies am drefnu'r lluniaeth ysgafn. Roedd nifer yn bresennol a diolch iddynt hwythau am ein cefnogi ac i bawb am eu rhoddion at y raffl

Capel Bethlehem, Talybont

Gwasanaethau

Mehefin

17 : Parch. John Lewis Jones, Llandudno;
24 : Parch. Harri Owain Jones, Llanfairpwll;
Gorffennaf
1 : Parch. Trefor Lewis;
8 : Y Gweinidog;
15 : Parch John Owen, Rhuthun
22 : Y Gweinidog;
29 : Mr. J. O. Roberts, Bethesda.

**Oedfaon am 2.00 .
Croeso cynnes i bawb.**

Yr Ysgol Sul

Llongyfarchiadau i naw o blant Ysgol Sul Bethlehem ar gael eu gwobrwyo am eu gwaith yn yr Ysgol Sul. Cawsant dystysgrif i'w chadw ynghyd â gwobr ariannol yng Nghymanfa'r Ysgolion Sul a gynhaliwyd yng Nghapel Pendref Bangor ar fore Sul, 20 Mai.

Dyma eu henwau :-

Elliw Louise Jones, Corey Desch, Emily Louise Williams, Sam Desch, Brandon Alford, Joseph Roberts, Ceri Louise Thomas Jones, Chloe Elizabeth Williams a Cara Lois Dewhirst. Da iawn chi i gyd!

Cymanfa'r Annibynwyr

Braint oedd cael croesawu Cymanfa Ganu Dosbarth Bangor a Bethesda i Fethlehem am y tro cyntaf erioed. Fe'i cynhaliwyd ar nos Sul, 20 Mai, o dan arweiniad Mr. Elfed Morgan Morris, Deiniolen, gyda Mrs. Helen Wyn Williams, Carmel wrth yr organ. Cafwyd eitemau ardderchog gan gôr o blant Ysgol Llandygái. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mrs. Jean O. Hughes a thri o blant yr Ysgol Sul, sef Cara, Ceri a Joseph. Llywyddwyd y noson gan ein gweinidog, Y Parchedig Geraint Hughes.

Te Mefus

Edrychwn ymlaen at ein Te Mefus Blynyddol yn Festri Bethlehem ar nos Fercher, 27 Mehefin am 7 o'r gloch. Croeso i bawb.

Te Mefus

yn

Festri Bethlehem Talybont

Nos Fercher,
27 Mehefin
am 7 o'r gloch nos

Elw at y capel

Hysbysebwr yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853

JOHN ROBERTS



Paentiwr

Papurwr

Teilsiw

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00

Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau

- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Ymgymwrwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

CAFFI SEREN

BETHESDA

Ffon: 01248 600661

Oriau agor

Llun i Gwener: 8.00 tan 4.00

Dydd Sadwrn: 8.00 tan 1.00

BWYD CARTREF

Pryd arbennig (Special) bob dydd

Cinio rhost bob dydd Gwener

Bwyd i'w fwyta allan

Croeso cynnes gan Sue a'r staff

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

AUR
CLOGAU

Gostyngiad o
20%

Os nad mewn sêl eisoes



Siswrn Arian
*Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant*

Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH BO-WEN

GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU

☎601888

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

Llanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Cydymdeimlad

Ar 7 Mai yn dawel yn Ysbyty Eryri, bu farw Eifion Jones, Bro Eryri, Waen Wen.

Yr oedd Eifion Tyn Ffridd, fel yr adnabyddid ef, yn un o hen gymeriadau'r ardal. Bu'n amaethu yn Nhyn Ffridd am flynyddoedd ac yn danfon llefrith i nifer o strydoedd Bangor am gyfnod hir ym mhedwardegau a phumdegau'r ganrif ddiwethaf.

Yr oedd Eifion bob amser yn wên i gyd ac yn llawn hwyl. Byddai'n derbyn y Llais yn rheolaidd bob mis ac yn gefnogol iawn i'r papur a gweithgareddau cymdeithasol y fro ac yn barod i gyfrannu tuag at unrhyw achos lleol.

Yr mae'n deg dweud ei fod yn un o'r rhai olaf o hen drigolion ei gyfnod a bydd colled fawr ar ei ôl.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Pentir ar ddydd Llun 14 Mai a daeth cynrychiolaeth deilwng yno. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth, yn enwedig ei ddwy ferch Janice a Sandra a'u teuluoedd.

Bingo a Noson Goffi

Cynhaliwyd Bingo yn y Ganolfan ar 18 Mai tuag at Farchogaeth i'r Anabl yn Nhreforth a gwnaed elw o £115. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau tuag at y noson.

Cynhelir y Bingo nesaf ar 27 Gorffennaf am 7.30 yh, gyda'r elw yn mynd tuag at Radio Ysbyty Gwynedd. Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniadau tuag at y gwobrau a'r raffl.

Dymuniadau Gorau

Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mair Williams, Tyddyn Heilyn, sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar.

Clwb Cant Y Ganolfan

Mis Mai

£20: Rhif 90 - Jan Sandham
£10: Rhif 76 - Elsie O Jones
£10: Rhif 44 - Grace Mudd
£10: Rhif 17 - Myfyr Parry

Ffarwel

Pob dymuniad da i Rhys ac Elenid, oedd yn byw yn Nheras Elisabeth, Glasingfryn, sydd wedi symud i fyw i'r Felinheli. Mae lleoliad eu cartref newydd am fod yn arbennig o gyfleus i Rhys gan ei fod yn gweithio fel dyn camera i'r cwmni cynhyrchu teledu, Cwmni Da, sydd â swyddfa yn y Felinheli, yn ogystal â Chaernarfon.

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Anti Maggie ar teulu yn ei profedigaeth o golli merch, chwaer, gwraig a mam annwyl, sef Mrs Olive Jones, Talmignedd, Nantlle.

Dymuno gwellhad

Anfonwn ein cofion at Pat Jarvis, Bro Infryn, Glasingfryn, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd a Pat Cook, Rhyd y Groes, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Walton, Lerpwl. Brysiwch wella eich dwy.

Bingo

Cynhelir noson o Fingo yng Nghanolfan Glasingfryn, Nos Wener 22 Mehefin am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

Te Prynhawn

Cynhelir prynhawn o sbri Dydd Sadwrn 21 Gorffennaf yn Glyn Cottage, Nant y Garth. Bydd lluniaeth, stondinau, raffl ac adloniant. Croeso cynnes i bawb.

Gerddi'n Agored

Mae yna ddwy ardd yn agor i'r cyhoedd dan y "Cynllun Gerddi Cenedlaethol" ar 7 Gorffennaf. Bydd gerddi Belinda Thompson, Tŷ Uchaf, Pentir a Iwan Thomas a Lisa Eagle, 2 Rhyd y Groes yn agor eu giatiau am 12.00 pm ag yn cau am 4.00 pm. Hefyd mi fydd te a chacennau a phlanigion ar werth yn Bryn Meddyg, Pentir. Gobeithiwn gael tywydd braf er mwyn mwynhau'r digwyddiad yma - croeso i bawb.

Cydymdeimlad

Ar fore dydd Gwener Ebrill 20fed bu i Hilda Mary Keen (Mollie) gynt o Tŷ Nant, 6 Rhyd-y-Groes Pentir huno yn dawel yn ei chwsg yn Nghartref Glyn Menai Treborth yn 97 mlwydd oed.

Mae ein cydymdeimlad gyda ei brawd John a'i chwaer yn nghyfraith Sue, ei nithoedd Clare, Sali a'i neiaint Steven ac Andrew Ganwyd Hilda Mary Keen yn Nottingham ym mis Tachwedd 1914.

Pan oedd Hilda tua wyth mlwydd oed, penderfynodd nad oedd yn hoffi yr enw Hilda a dechreuodd alw ei hyn yn Mollie. Ac felly yr adnabu pawb hi o hynny ymlaen.

Mynychodd Ysgol Uwchradd Genethod Nottingham ac oddi yno aeth yn ei blaen i Gartref Dr Barnardo's i astudio gofal plant. Tair mlynedd wedyn aeth ymlaen i wneud ei chwrs nyrsio yn Ysbyty Bartholomew yn Llundain a dilynodd hyn drwy ennill diploma mewn fferylllyddiaeth.

Penderfynodd Mollie geisio am swydd fel matron mewn ysgol

breswyl i fechgyn. Tra'n gweithio yn Essex rhaid oedd i blant a staff yr ysgol gael eu symud i ddiogelwch oherwydd yr ail Ryfel Byd, ac i Gastell Deudraeth yn Mhortmeirtion y symudwyd hwy. Dyma pryd y cychwynodd cariad Mollie at Ogledd Cymru.

Symudodd yn ôl i Loegr am gyfnod, ond nid oedd Lloegr yn cyffwrdd â Mollie yn yr un modd ar ol ei harhosiad yn Nghymru. Symudodd i Benrhyndeudraeth i weithio mewn meddygfa yn Mhothrmadog.

Mae llawer yn cofio Mollie ar ei beic yn trafaelio yn ôl ac ymlaen dros y Cob ym mhob tywydd. Ar ymddeoliad Dr Morris symudodd Mollie i gychwyn gweithio yn Ysbyty Dewi Sant yn Mangor fel fferylllydd. Dyma pryd yr ymgartrefodd Mollie yn Tŷ Nant, Rhyd-y-Groes, Pentir.

IMae'r rhai a oedd yn adnabod Mollie yn gwybod am ei chariad at anifeiliaid, natur, yr awyr agored a'i gardd. Roedd amgylchedd a chadwraeth yn flaenllaw iawn ganddi. Ymgyrchodd yn frwd i ddiddymu'r defnydd o chwynladdwyr yn Mhentir er mwyn annog blodau gwyllt i dyfu. Yn fynych iawn ym mhob tywydd byddai Mollie yn cerdded â'i chi (neu gŵn) i fyny Moelyci, yn aml gyda chath yn eu dilyn am ran or daith.

Marwolaeth

Ar Mai 17, 2012 yn 100 mlwydd oed, hunodd Ms Nancy Williams, Tan y Grisiau Pentir yn Nghartref Preswyl Plas Heddd, Bangor.

Estynwn ein cydymdeimlad i Geraint, Vivienne, Alison, Dilys a'r teulu oll yn eu colled a'u profedigaeth.

Cynhaliwyd Gwasanaeth cyhoeddus yn Amlogfa Bangor Dydd Mercher, 23 Mai gyda'r Parchedig John Pritchard yn gwasanaethu.

Yn 1939 ymgartrefodd Anti Nancy yn Nhan y Grisiau, Pentir gyda'i theulu o Ben y Ffridd, Rhiwlas, ac yno tan yn ddiweddar iawn bu Anti Nancy yn byw yn annibynnol gyda cefnogaeth teulu a ffrindiau gwych. Bydd colled mawr i ni oedd mor freintiedig chael adnabod Nancy, neu Anti Nancy fel y gelwid hi gan lawer.

Eglwys Sant Cedol

Clwb 100 Mis Mai 2012

1af Rhif 33
Nia Roberts, Rhiwlas

2ail Rhif 36
Ellis Davies, Deiniolen

3ydd Rhif 8
John a Janet Rees, Pentir

Eglwys Sant Cedol

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i John Edward Jones, Bro Awel, Dolhelyg, a gymerwyd i Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Hen Daid a Nain

Llongyfarchiadau i Llew ac Enfys Jones, 2 Cae Gwigin, ar ddoed yn hen daid a hen nain am yr wythfed tro. Croeso mawr i Lleucu a gyrhaeddodd ddiwedd mis Mai.

Garddwest

Cynhalwyd ein Garddwest flynyddol eleni yn y Ficerdy, Pentir, trwy garedigrwydd y Parch. a Mrs John Matthews ar brynawn Sadwrn y 26ain o Fai.

Agorwyd yr Arddwest gan ein Ficer, y Parch. Nia C Williams; ar ôl agor yr arddwest cymerwyd yr awenau gan Anwen Thomas a'n harweiniodd drwy weithgareddau'r prynhawn.

'Roedd amryw o stondinau, a Helfa Drysor o amgylch gardd y Ficerdy. Enillwyd yr Helfa oedd Cassie a Cara.

'Roedd cystadleuaeth arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Goffa Leslie Crocombe. Yr enillydd yn yr Adran Babanod oedd Keira Bailey Hughes Blwyddyn 1, ac enillydd yr Adran Iau oedd Jenny Warren Blwyddyn 4.

Roedd sawl gwahanol raffl sef, Raffl Plant, Raffl Teisen a Raffl Llun, a oedd yn rhoddedig gan Alan Jones, Waun Wen. Yr enillwyr oedd:

Raffl Plant:

1af taleb £25 HMV -
Cassie Dodd.

Raffl Llun:

Bill Perry. Nant Y Garth

Raffl Teisen:

Nesta Barton, Rhiwen.

Ar ddiwedd prynhawn llwyddianus a fwynhawyd gan lawer diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth gan y Barch. Nia Williams.

Yn dilyn yr arddwest cynhalwyd bwffe yn y Faenol Arms, Pentir, lle cawsom amser i farwelo a'n Ficer, y Barchedig Nia C. Williams a adawodd y Plwyf ar y 27 o Fai. Yn ystod y noson cawsom amser i ddiolch i Nia am ei Gweinidogaeth, ei chymorth a'i chyfeillgarwch dros y pedair blynedd a hanner ddiwethaf.

Cyflwynwyd i Nia rodd gan yr Eglwys ym Mhentir i ddangos ein gwerthfawrogiad o'i gwaith caled yn y plwyf. Pob lwc Nia ar eich pererindod dros fisoedd yr haf a'ch swydd newydd yn y Gadeirlan ym Mangor yn Mis Medi.

BARBWR OGWENTorri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison**Meithrin menter gymdeithasol leol****Am gymorth:**i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli**cysylltwch â****Mantell Gwynedd**- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271**CAFFI COED Y BRENIN**1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Ffoniwch

01248 602550

e-bost : karena@agoriad.org.uk**Gorsaf betrol****BERAN**

Deiniolen

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteriGwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb**Cerbydau Penrhyn****CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
ContractauContractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru**Oriel Cwm**

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS

**MODURDY
FFRYDLAS**Profion
M.O.T.Perchenogion
ughes ac A. Ll. Williams**Stryd Fawr, Bethesda**

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO

♦ TEIARS A BATRIS ♦

**GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN**

☎ 600723

Ffacs: 605068

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)

*Blodau ar gyfer pob achlysur*Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'***Modurdy Central**

Ceir ail-law ar werth

M.O.T. ar gael

Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Y Douglas Arms* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesdaCewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey**MODURON****PANDY**

Cyf.

TregarthGwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Pob math o waith trydanol

Huw JonesYmgymwrwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 352835

Clwb Rhiwen

Treuliwyd awr ddifyr yn y Clwb ar 16 Mai wrth i ni gael y fraint o groesawu Brenda Wyn Jones, Tregarth i roi sgwrs. Sôn wnaeth hi am yr ifaciwís a ddaeth i aros i'n bro ar ddechrau'r ail ryfel byd. Y plant druan a orfodwyd i gefnu ar eu cartrefi a'u rhieni ar fyr rybudd a symud i ardaloedd a roddai iddynt ddiogelwch mewn cartrefi dieithr o gyrraedd y bomiau a'r holl erchylltra.

Yr hyn wnaeth ychwanegu at y diddordeb yn y testun oedd fod dau a oedd yn bresennol wedi bod yn ffoaduriaid eu hunain. Symudodd Pamela Lyddon o Lannau Mersi i Rallt Pentir a John Austin o Lundain i ardal Wrecsam ac yna i Ddyffryn Ogwen.

Hefyd cofiai rhai o'r aelodau am blant o Lerpwl yn cyrraedd Rhiwlas ac yn aros yn eu cartrefi. Roedd ambell un wedi cadw mewn cysylltiad am flynyddoedd, ac ambell un fel Marshall Yates wedi aros, a chael cartref gyda John Elwyn ac Enid Jones yn Mronallt. Buan y daeth y plant hyn yn rhugl eu Cymraeg wrth fynychu'r ysgol a chymysgu â phlant y pentref. Iona ddiolchodd i Brenda. Cyfeiriodd ati fel un a oedd yn feistres ar greu diddordeb ymhlith ei gwrandawyr.

Camu Ymlaen

Llongyfarchiadau i Martha Parry Owen, Aralia, Waun Pentir ar gael ei debyn fel prentis gyda'r Grid Cenedlaethol o blith nifer fawr o geisiadau. Bydd y cwrs yn parhau am gyfnod o dair blynedd pryd y bydd Martha yn rhannu ei hamser rhwng Nottingham a gorsaf drydan Pentir. Mae Martha yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Rhiwlas, Ysgol Dyffryn Ogwen a Choleg Menai, lle bu'n dilyn cwrs mewn peirianeg.

Mynegi Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn gywir iawn gyda Dilys Parry, Bryn Tirion, ynghyd â chysylltiadau eraill Miss Nancy Williams, Tan y Grisiau, Pentir, a fu farw ddechrau Mai yn gant oed. Er mai modryb i'w mam ydoedd mewn gwirionedd, fel Anti Nansi y byddai Dilys yn ei chyfarch ac Anti Nansi oedd hi i'r rhan fwyaf o bobl oedd yn ei hadnabod. Ond roedd y berthynas cydrhwng y ddwy yn llawer mwy na pherthynas deuluol; roeddent yn ffrindiau pennaf. Bu Dilys yn garedig iawn wrthi gydol y blynyddoedd ac Anti Nansi yn werthfawrogol o hynny, fel yr oedd yn gwerthfawrogi pob cymwynas gan ei theulu a chan gymdogion.

Byddai galw heibio Tan y Grisiau am sgwrs gydag Anti Nansi yn brofiad i'w drysori. Ei phlentynod ym Mhen y Ffridd, Rhiwlas, fyddai

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas.

Cyfarfu'r gangen nos Fawrth, 8 Mai, a llywyddwyd y noson gan Iona. Roeddem fel aelodau yn meddwl am Maggie Jones wedi iddi gael profedigaeth lem o golli ei merch, Olive. Cydymdeimlwyd â Dilys hefyd; bu farw ei hewythr ym Milton Keynes.

Cawsom fwy o wybodaeth am babell y mudiad gan Linda; byddwn yn helpu gyda'r te fore dydd Gwener. Hefyd bydd rhai o'r aelodau yn plygu'r Llais ym mis Gorffennaf. Mae'n amser ethol Islywydd cenedlaethol ac eleni doedd dim pendroni; dewiswyd pleidleisio dros Einir, sy'n aelod o'r gangen. Penderfynwyd ein bod am fynd i Ardd Fôn, y Felinheli am ein swper y mis nesaf.

Ein gŵr gwadd oedd Gwilym Evans o Lanberis a chawsom hanes ei hen daid, sef yr un a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu Oel Morris Ifans. Un o Lanffestiniog ydoedd, ac yn sicr roedd yn ddyn o flaen ei oes, yn gwybod yn union sut i farchnata ei gynnyrch. Roedd ganddo bosteri arbennig; rhai Cymraeg wedi eu dylunio gan W. Mitford Davies ac roedd yn argraffu llythyrau a dderbyniodd yn canmol yr oel i'r entrychion. Roedd yn cael ei argymhell fel meddyginiaeth at bron pob clwy. Daeth Gwilym a llawer o enghreifftiau o boteli, tuniau a bocsys gydag ef i ni gael eu gweld. Cytunai pawb ein bod wedi cael noson hyfryd a diolchwyd i Gwilym gan Gwen. Diolch hefyd i Carol a Sally am wneud y baned.

testun y sgwrs gan amlaf. Minnau â chof plentyn am ei rhieni ac am Ceinwen ei chwaer a oedd yn byw gartref ar y pryd. Ei thad yn chwarelwr ac wedi parhau yn y chwarel hyd ei fod dros ei bedwar ugain oed. Cadwai dair neu bedair o fuchod godro ar y tyddyn – Ceinwen yn corddi a ninnau fel plant yn galw am laeth enwyn – llond piser am ddimai, a ninnau'n chwyrlio'r piser o gwmpas ein pennau ar y ffordd adref heb golli cymaint â diferyn.

Ia, rhyw din-droi o gwmpas Pen y Ffridd fyddai'r sgwrs gan ddod ag atgofion i'r wyneb oedd wedi hir-hel yn y cof. Braint oedd cael ei hadnabod.

Noson Gaws a Gwin

Nos Sadwrn, 12 Mai, fe gafwyd noson o gaws a gwin yng nghartref Alex a Gareth yng Ngharreg y Gath. Roedd y tywydd yn ffafriol iawn ac roedd yn ddigon braf i allu treulio peth amser yn yr awyr agored. Cafwyd croeso arbennig yno a dewis da o gaws a gwin!

Yn bresennol hefyd roedd Rhys Trimble sy'n awr yn byw ym Methesda a chafwyd noson ddifyr yn ei gwmmi. Darllennodd amrywiaeth o farddoniaeth, gan gynnwys ei waith ei hun.

Gwanaethpwyd £100 o elw at Apêl Eisteddfod yr Urdd, Rhiwlas a Phentir. Mae'r Pwyllgor Lleol yn hynod ddiolchgar i Alex a Gareth am gynnal y noson ac am y croeso a gafwyd.

Cymorth Cristnogol

Bu'r casglyddion o gwmpas y pentref eto eleni. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb a gyfrannodd, boed y swm yn fawr neu'n fach, gan fod pob ceiniog i'w thrysori. Diolchir hefyd i'r canlynol am eu casglu: Dyddgu Pritchard Owens, Dilys Parry, Iona Jones, Bethan W. Jones, Rhian Evans, Steffan Job a John H Evans.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Gair o ddiolch

Dymuna Margaret, Dwynwen, Rhian, Dilwyn a Dylan a theulu'r diweddar Elfrys Price Jones, 27 Bro Syr Ifor, Tregarth, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau a'r rhoddion ariannol a gasglwyd at elusennau NSPCC a 'Help for Heroes'. Diolch arbennig i'r Parchedig Dewi Morris ac i'r meddygon a staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i nyrsys ardal Meddygfa Bethesda, i swyddogion Capel Shiloh ac i Stephen Jones am y trefniadau trylwyr.

Genedigaeth

Llongyfarchidau mawr i Eirwen a Wyn Williams a'r teulu, Tyddyn Dicwm, Tregarth am ddod yn Nain a Taid i Greta Grug o Aberystwyth. Ganed Greta yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin i Elwyn a Kate ar Fai 17. Mab Eirwen a Wyn yw Elwyn ac anfonwn ein cofion atynt fel teulu. Dyma wneud Nia a Kevin, Tyddyn Dicwm Bach yn fodryb ac ewythr i Greta. Dyma'r ail ddathliad i'r teulu. Ganed merch fach, Lili Gwenllian i ferch Kevin, sef Ceri, a'i phartner James ym Manceinion.

Llongyfarchiadau

Yn ddiweddar gwnaed Beti Morris, Ffordd Tanrhiw, gynt o Sling, yn hen nain i Twm Mabon. Ganed Twm i'w hwyres Fflur a'i phriod Gethin Evans ac maent yn byw yn Clwt y Bont. Mae Fflur yn actores broffesiynol a gwelir Gethin yn cyflwyno rhaglen ar nos Wener ar y teledu. Llongyfarchiadau i chwithau fel teulu.

Yn yr ysbyty

Bu Alun Owen, Craig y Pandy yn Ysbyty Gwynedd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gobeithio eich bod yn teimlo ychydig yn well Alun.

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Priodas

Llongyfarchiadau i Rhian Wyn Pritchard a Siôn Lloyd Morton Pritchard ar achlysur eu priodas ar 12 Mai yn eglwys y Santes Fair. Gweinyddwyd gan y Ficer, y Parchedig John Matthews, a'r organydd oedd Mr James Griffiths. Pob lwc a dymuniad da i chwi eich dau i'r dyfodol.

Gwaeledd

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Alun Owen, Craig Pandy sydd wedi cael triniaeth yn Ysbyty Manceinion

Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi at yr eglwys yn Neuadd Ogwen ar 21 Gorffennaf o 10.00 – 12.00 yb. Byddwn yn falch iawn o dderbyn unrhyw gacennau, nwyddau, llyfrau a gwobr raffl ac ati tuag at yr achlysur, gyda gwerthfawrogiad a diolch.

Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth i'r Clwb Cant. Eleni rydym wedi codi oddeutu £570 at yr eglwys ac wedi talu allan £570 mewn gwobrau. Byddwn yn defnyddio peth o'r arian sydd yn y cyfrif i osod system wresogi newydd yn yr eglwys gan obeithio y byddwn i gyd yn manteiso o'r gwres y gaeaf nesaf! Mae blwyddyn newydd y Clwb Cant yn dechrau mis Mehefin, byddwn yn croesawu aelodau newydd i'r Clwb!

Clwb Cant Y Gelli Mis Mai

£20 - 2 - Linda Irons
£10 - 117 - Ann Jones
£10 - 9 - Raymond Daxter
£5 - 87 - Miss J Gordon

Miri Mehefin

yng

Nghapel Shiloh, Tregarth

Dydd Sul, 24 Mehefin

Am 2 o'r gloch

Arweinydd

Owain Arwel Davies, Bethesda
Cyfeilydd
D. Wyn Williams, Tregarth

Te parti i bawb yn dilyn y miri Dewch i fwynhau gwledd o ganu.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Yng nghyfarfod mis Mai o'r gangen croesawyd atom J Richard Jones, Llangefni – neu Dic Rhosgoch i'w gyfeillion.

Treuliasom dros awr ddifyr iawn yn ei gwmni gan iddo ddarlithio a dangos sleidiau am un o feirdd amlycaf a mwyaf toreithiog Ynys Môn, sef John Evans, a adnabyddir yn well fel y Bardd Cocos. Cawsom enghreifftiau lu o'i waith hynod, yn cael eu hadrodd gydag arddeliad gan Dic. Pwy all fyth anghofio am y llewod o boptu'r bont wedi iddo eu hanfarwoli yn rhai o'i benillion amlycaf.

Gobeithio yn arw y cawn bresenoldeb Richard eto yn ystod y tymor nesaf. Rydym yn mwynhau ei gwmni a'i afiaith.

Cawn hanes ein taith flynyddol yn y Llais nesaf.

CAPEL SHILOH

Oedfaon gyda'r nos am 5.30 ac Ysgol Sul am 10.30 os na nodir yn wahanol.

Mehefin

- 17 Ysgol Sul
Parchedig Siôn Aled Owen,
24 2 o'r gloch Miri Mehefin,
sef Cymanfa Ysgolion Sul Arfon yn Shiloh. Arweinydd Owain Arwel Davies, Bethesda, a'r Cyfeilydd D. Wyn Williams, Tregarth.
Tê Parti i bawb yn dilyn.

Cynhaliwyd Oedfa ar gyfer y teulu yn Shiloh, fore Sul, Mai 13, ar ddechrau wythnos Cymorth Cristnogol. Cymerwyd rhan gan Esme, Morus, Osian, Hannah, Siwnamis, Caleb, Gwenlli, Aziliz, Huw, Cerys Elen, Elliw a Gwenno. Cafwyd cymorth hefyd gan y rhieni sef, Christine Morris Jones, Bethan Crowe, Elen Sanderson, Andrea Williams, Gwenan Efans, Ffion Kervegent, D. Wyn Williams a Gwenda Davies.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd cyfle i weld ffilm am Llinos o Drefor yn paratoi ar gyfer taith i Sierra Leone yng Nghyffandir Affrica. Roedd pentrefwyr Trefor wedi bod yn casglu arian yn ddiwyd ar gyfer Cymorth Cristnogol drwy gyfrwng amryw byd o weithgareddau yn y pentref a'r ardal gyfagos. Yna gwelwyd Llinos yn un o bentrefi Sierra Leone a'r ysgol newydd a adeiladwyd gyda chymorth arian Cymorth Cristnogol. Roedd yn oedfa hyfryd a gwnaed casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol gan drosglwyddo £100 i Gronfa Cymorth Cristnogol Dyffryn Ogwen yn dilyn yr oedfa. Diolch i bawb am wneud eu rhan mor dda

Mae dwy o aelodau ffyddlonaf Capel Shiloh wedi cael cyfnodau byr yn yr ysbyty, sef Iris Harper, Tŷ Newydd, Llandygái, a Gwenllian Owen, Meillionydd, Tal y Cae. Gwellhad llwyr a buan i'r ddwy.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Ebrill

33 Marian Griffiths	£15
12 Richard Griffiths	£10
19 Arthur Williams	£ 5

Mis Mai

2 Owena Jones	£15
9 Sara Oliver	£10
12 Sulwen Jones	£ 5

Mynydd Llandygái

Theta Owen.
Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Iwan a'i gyfarwng ar enedigaeth bachgen bach. Hefyd i Glyn ac Anwen ar ddod yn daid a nain. Dymuniadau gorau i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i Helen Menai ar enedigaeth merch fach. Lotti. Hefyd i Buddug a Hefin ar ddod yn nain a thaid. Cofion atoch chi a'r teulu.

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion at Mr Gwilym Bullock sydd ddim yn dda. Cofion at Carys O'Connor sy'n dioddef o'r Eryr a hefyd at Maureen sydd ddim rhy dda.

Dymuniadau Gorau

Diolchwn i'r Barchedig Nia Williams sydd yn gadael ar ôl 5 mlynedd. Bydd colled fawr ar eich ôl. Diolchwn am bob cymwynas a charedigrwydd ac am eich gwaith caled yn ein plith. Pob lwc a dymuniadau gorau yn eich swydd newydd yn y Gadeirlan. Cafwyd cinio yng Nghaffi Coed y Brenin i Nia ac aelodau Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair. Achlysur trist ond pawb wedi mwynhau! Diolch i Karen a Lynda am y wledd a'r croeso.

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

17 Mehefin: 9.45 Boreol Weddi
24 Mehefin: 9.45 Cymun Bendigaid
1 Gorffennaf: 9.45 Gwasanaeth Teulu
8 Gorffennaf: 9.45 Cymun Teuluol
15 Gorffennaf: 9.45 Boreol Weddi

Braf oedd gweld cynifer o bobl yn ngwasanaeth y Sulgwyn ac yna yn y cinio ym Methesda i ddathlu'r cyfnod o bedair blynedd y bu'r ficer, y Barchedig Nia Williams yn ein gwasanaethu yn St. Ann. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Gyda thymor gwyliau'r haf yn agosau, dymunwn wyliau hapus i bawb - cofiwn yn arbennig ein pobl ifainc sydd wedi bod yn sefyll arholiadau dros yr wythnosau diwethaf.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Nain a Thaid

Llongyfarchiadau gwresog i Brian a Kathy Thomas, Ciltrefnus ar ddod yn daid a nain i Cairon Lee, sef mab bychan eu merch, Joanna, a'i phartner, Richard. Llongyfarchiadau hefyd i Joan Edwards, Glanrafon am ddod yn hen nain unwaith eto.

Penblwydd yn 60

Rydym yn llongyfarch Dewi Griffith, Ciltrefnus, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Aeth y teulu i ddathlu'r achlysur i Tenerife. Gobeithio iti gael penblwydd i'w gofio Dewi, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Hanner cant

Llongyfarchiadau calonnog i Shirley Morris, Ciltrefnus, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed. I Lanzarote y mae Shirley a'r teulu yn mynd i ddathlu. Pob hwyl i tithau, Shirley. Mwynha'r dathlu, a dymuniadau gorau i ti

Deunaw

Mae dau o'r ardal yn dathlu eu penblwydd yn ddeunaw oed y mis hwn. Y cyntaf yw Siôn Wyn Owen, Waun Gwail, a chaiff ei ddilyn yn ddiweddarach yn y mis gan Mark Speddy, Stryd y Ffynnon. Gobeithio y cewch eich dau ddiwrnodau i'w cofio yn dathlu'r pen-blwydd. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch ar gyrraedd eich deunaw

oed, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Nerys Costello, a'r hogiau, Brian a Craig, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl, sef y diweddar Brian Costello yn dilyn gwaeledd blin. Derbyniwch i gyd ein cydymdeimlad fel ardal. Ein cydymdeimlad, hefyd, i Rhiannon a Martin Sturrs, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth o golli brawd-yng-nghyfraith

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo'n fawr iawn gyda Jane Williams, a'r teulu, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth lem o golli mab annwyl, y diweddar Alan, a fu farw trwy ddamwain yn Sheffield, ac yntau ond yn 24 oed. Rydym i gyd yn cydymdeimlo'n ddwys gyda chi wedi clywed y newyddion brawychus a thrist.

Cartref newydd

Croeso i Karen Roberts a'r plant i'w cartref newydd yn Stryd Goronwy. Dod yn ei hól i'r Gerlan mae Karen gan mai yn Stryd y Ffynnon y ganed ac y magwyd hi. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn fel teulu yn ein plith.

Y Caban

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Caban am 7.00 ar yr ail o Orffennaf yn y Caban. Croeso cynnes i bawb.

Llwyddiant Band



Mae'r band lleol, *Vintage Magpie*, sy'n cynnwys dau o bobl ifanc yr ardal, Elin Cain, Ffordd Gerlan, a Callum O'Marah, Gerlan, wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar, gan berfformio yng Ngwesty'r Llangollen, ac yn y clwb enwog, y Cavern, yn Lerpwl. Maent yn perfformio hefyd ar faes yr Eisteddfod yng Nglynllifon. Da iawn chi, a phob llwyddiant i'r band i'r dyfodol.

O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Bethesda

Rhybudd hysbysebu sedd wag

Mae trefn newydd ar gyfer cyfethol ac mae ffurf y rhybudd wedi newid. Dylai unrhyw rai sydd eisiau cael eu cyfethol wneud cais ysgrifenedig i Glerc y Cyngor. Penderfynwyd rhoddi'r rhybudd ar hysbysfwrdd y Cyngor

Teledu Gorffwysfan

Derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Ann Williams yn cadarnhau nad yw defnyddwyr Gorffwysfan eisiau'r defnydd o deledu yno. Penderfynwyd ceisio am addaliad ar y drwydded deledu a pheidio â gosod blwch digidol yno.

Ail Rybudd Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Lon Ddŵr, Bethesda) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwedd Dros Dro) 2012.

Daw'r gorchymyn i rym ar 28 Mai er mwyn caniatáu gosod dwythellau BT o dan y ffordd.

Parc Cenedlaethol Eryri

Gwahoddiad i Ddiwrnod Agored y Gyfarwyddiaeth Rheoli Tir ym mhencadlys y Parc ym Mhenrhyndeudraeth ar 19 Mehefin 2012. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys pedwar maes gwasanaeth sef: y Gwasanaeth Amaethyddiaeth a Chadwraeth, yr Amgylchedd Naturiol a Choedwigaeth, Wardeniaid a Mynediad, ac Addysg a Chyfathrebu

Lansiad Cynghrair Cymunedau Cymru

Gwahoddiad gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar gyfer gweithgaredd ar nos Fercher Mehefin 6 am 7.30 yn Neuadd Goffa Penygroes. Bydd hyn yn rhan o weithgarwch y Gymdeithas yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Neilltuir rhan o'r noson i lansio llyfr newydd Carl Clowes.

Camerâu Cylch-Cyfyng yn ardal Stryd Fawr Bethesda

Ni fyddai system o'r fath o lawer o werth i'r ardal heb gael swyddog monitro a byddai angen cael linc i'r ystafell monitro yng Nghaernarfon. Byddai yn llawer rhy gostus (degau o filoedd) cael y linc ac efallai na fyddai ddim ond yn symud y broblem i rannau eraill o'r pentref. Bydd y SCCH Heddlu Gogledd Cymru yn ceisio cael y camera dros dro yn ôl i'r ardal ger siop Spar. Eisoes roedd y Cynghorydd Ann Williams a'r Clerc wedi cyfarfod a chwmmi CCTV Systems i edrych ar system heb gael y linc ond ni fyddai system o'r fath yn effeithiol oherwydd na fyddai ddim ond yn gallu recordio ac ni ellid chwyddo'r lluniau i gael mwy o fanylder. Felly, ni fyddai yn effeithiol dros y pellter angenrheidiol.

Eisteddfod yr Urdd 2012

Llythyr yn gofyn a oes gan y Cyngor ddi-ddordeb mewn prynu fflagiau coch, gwyn a gwyrdd (bynting) i groesawu'r Eisteddfod i'r ardal. Penderfynnwyd prynu bynting a'i osod yn ardal Bethesda. Y Cynghorwyr E Mary Jones (Cadeirydd 2012-13), Walter Williams a'r Clerc i weithredu.

Welsh Slate

Ymgynhoriad â'r Gymuned yn ymwneud â datblygiad arfaethedig yn Chwarel y Penrhyn - Cynhelir arddangosfeydd cyhoeddus yn y mannau canlynol:- Neuadd Goffa Mynydd Llandygái ar ddydd Llun 20 Ebrill 12:00 tan 8:30 a Chlwb Rygbi Bethesda ar ddydd Mercher 11 Ebrill o 12:00 tan 8:30. Cadarnhawyd fod nifer o'r aelodau a'r Clerc wedi mynychu a'i fod yn gyflwyniad da i'r datblygiadau.

Polisi Rhoddion neu Nawdd

i sefydliadau elusennol a mudiadau lleol.

- Dylai'r Cyngor, fel rheol, ganiatáu nawdd i fudiadau a sefydliadau lleol o fewn Dyffryn Ogwen yn unig, ond cytunwyd y dylid rhoi ystyriaeth arbennig i rai sefydliadau cenedlaethol megis yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Urdd.

- Ceisiadau o hyn ymlaen i gyrraedd y Clerc erbyn diwedd mis Rhagfyr, gyda'r dyraniadau i'w gwneud yng nghyfarfod mis Ionawr y Cyngor. Dylid hysbysu'r newid hwn yn Llais Ogwan.

- Pan dderbynnir cais, dylid anfon llythyr o gydnabyddiaeth at bob ymgeisydd gan egluro'r drefn ddyrannu ac i ofyn am gopi o'r adroddiad ariannol neu gyfriflen.

Menter Iaith Dyffryn Ogwen - Tesco Bethesda - Copi o lythyr at Tesco yn gofyn iddynt weithredu egwyddorion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn eu siop newydd. Maent yn gofyn yn benodol iddynt ddilyn Strategaeth Iaith genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef Iaith fyw: Iaith byw 2012. Penderfynwyd gyrru llythyr at Tesco yn cefnogi safbwynt y Fenter Iaith.

Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol ar 14 Mai, 2012 yn Festri Capel Bethlehem Talybont.

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr Margaret Fernley, Megan Tomos, Rhian Haf , Kevin Williams, Wyn Bowen Harries, Karen Desch, Jacqueline Hughes, Stephanie Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Meirion Davies, Darelle Smith a Dafydd Meurig.

Ethol swyddogion:

Cadeirydd: Y Cynghorydd Meirion Davies
Is gadeirydd: Y Cynghorydd Megan Harries, Megan Tomos, Margaret Fernley

Is-bwyllgor Llwybrau/Cyllid:

Kevin Williams, Margaret Fernley, Megan Tomos

Pwyllgor Neuadd Talgai:

Margaret Fernley

Pwyllgor Traeth Lafan:

Wyn Bowen Harries

Pwyllgor Llys Dafydd:

I'w benodi

Tŷ Newydd:

Karen Desch a Jacqueline Hughes

Un Llais Cymru:

Darelle Smith

Partneriaeth Ogwen:

Megan Tomos a Kevin Williams.

Yn dilyn y cyfarfod blynyddol cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol mis Mai gyda'r Is Gadeirydd, y Cynghorydd Megan Tomos yn y gadair.

Er nad oedd yn bresennol roedd Dafydd Meurig wedi cysylltu gyda'r clerch i adrodd ei fod wedi cyfarfod â swyddog trafndiaeth ar y safle ac roedd y swyddog wedi cadarnhau bod y safle yn dderbyniol. Roedd swyddog eiddo o'r Cyngor Sir hefyd wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i osod hysbysfwrdd ar y safle dewisedig. Fodd bynnag, bydd rhaid cael caniatâd cynllunio.

Derbyniwyd cais arfaethedig i gau rhan o ffordd diddosbarth ger Talybont. Trafodwyd y cais ac fe benderfynwyd cefnogi'r cais i gau rhan o'r ffordd.

Derbyniwyd copi o lythyr gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen y maent wedi ei yrru at gwmmi Tesco i sicrhau gwasanaeth trwy'r Gymraeg i drigolion y dyffryn pan agorir y siop ym Methesda. Cafwyd cais i'r cyngor cymuned gefnogi trwy ysgrifennu at Tesco yn yr un modd. Penderfynwyd llythyru â Tesco.

Derbyniwyd cais cynllunio gan Barc Cenedlaethol Eryri i osod ffenestr do fwy, a chais ôl-weithredol i osod fflw ar gyfer stôf goed yn Hen Capel Peniel, Llanllechid. Trafodwyd y cais ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

adroddodd fod cyfarfod arall i'w drefnu yn swyddfeydd y cyngor Sir a hynny mae'n debyg yn ystod mis Mehefin.

Tŷ Coch, Glasinfryn

Derbyniwyd gwybodaeth y bydd gwrandawriad i Apêl perchennog yr eiddo uchod i benderfyniad y Cyngor Sir i wrthod hawl cynllunio i drosi tai allanol yn ddau fwthyn gwyliau ac un anedd. Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwrthwynebu'r cais ar sail cyflwr y ffordd a'r posibilrwydd o gynydd mewn trafndiaeth os aiff y cynllun yn ei flaen. Mae pryder hefyd am y posibilrwydd o orlifo ar y safle. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn neuadd Glyder Fawr, Penrallt, Caernarfon ar Fehefin 26 am 10.00 o'r gloch.

Caerhun

Derbyniwyd cais gan Bwyllgor Llais Cymuned Caerhun i gael gosod hysbysfwrdd yn y pentref a hefyd i wneud gwaith cynnal a chadw ar y gysgodfan bws leol.

Wedi trafodaeth fe benderfynwyd gofyn am brisiau am hysbysfwrddau i Gaerhun, Pentir, Glasinfryn a Phenrhosgarnedd o faint 2' x 2' Soniwyd hefyd y gallai trigolion yr ardal, trwy wahanol Gymdeithasau dderbyn cyfrifoldeb am y byrddau unwaith y bydd y Cyngor wedi eu gosod. Nodwyd y bydd angen hawl cynllunio i osod rhai ym Mhentir, Glasinfryn a Chaerhun. Ynglŷn â'r gysgodfan bws penderfynwyd gofyn i Mr Gwyn Williams dorri drain/gwair o amgylch y gysgodfan er mwyn gweld maint y gwaith sydd ei angen arno.

Gwasanaeth Post

Trafodwyd lythyr gan James Griffiths yn nodi ei siom fod y post yn yn yr ardal yn cael ei ddosbarthu yn hwyr iawn. Dilynwyd y mater gan y Clerc a chafodd ymateb gan y Swyddfa Bost yn nodi fod yr amseroedd y mae'r Post yn cyrraedd Bangor wedi newid.

Eglurwyd y byddai'r post yn cyrraedd rhwng 3-4 o'r gloch y bore dro yn ôl, ac wedi ei ddioli y byddai'r postmon ar y ffordd erbyn 6.30 -7.00 o'r gloch. Erbyn hyn nid yw'r llythyrau yn cyrraedd y Ganolfan ym Mangor tan 7.30, sy'n golygu ei bod wedi 9.00 o'r gloch ar y postmon yn cychwyn ar ei daith.

Eglurwyd hefyd fod y Llywodraeth yn caniatáu i lythyrau gael eu dosbarthu i fusnesau a chartrefi erbyn 4.00 o'r gloch y prynhawn, hynny heb gosb ar y Post Brenhinol. Teimlai Mr Griffiths nad yw hyn yn deg â thrigolion yr ardal. Cafodd y Clerc hefyd gyfle i holi ynglŷn â blwch postio Caerhun, sydd wedi cael ei dynnu oddi yno ar ôl cael ei daro gan gar ers dros flwyddyn bellach.

Bwriad y Post Brenhinol yw gosod blwch postio newydd ger Stad Caerhun. Er mwyn gwneud hyn rhaid wrth hawl cynllunio, ond hyd y gŵyr y Cyngor nid yw'r Post wedi gwneud cais hyd yma.

Cyngor Pentir

Yng nghyfarfod mis Mai o'r Cyngor etholwyd y Cyng Dewi Jones, Penrhosgarnedd yn gadeirydd am y flwyddyn 2012-13 gyda'r Cyng Lowri James, Pentir yn Is-gadeirydd.

A4244

Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Lowri James yn dilyn cyfarfod ar safle y ffordd uchod. Yn bresennol 'roedd cynrychiolwyr o'r Heddlu, y Cyngor Sir, Parchu Pentir a'r Cyngor Cymuned ynghyd ag Alun Ffred Jones A.C. Teimlai mai cyfarfod digon siomedig ydoedd ar y cyfan a bod yr heddlu yn bendant yn erbyn gosod cyfyngiad ar gyflymder ar y ffordd. Serch hynny,

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái. Etholwyd y Cynghorydd Rhys M. Llwyd yn gadeirydd a'r Cynghorydd Dafydd Owen yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2012 – 2013.

Estynwyd croeso i ddau aelod newydd sef y Cynghorydd J. Clifford Jones a'r Cynghorydd Emyr Parri. Cyfetholwyd Mrs Elin Sanderson i'r sedd a oedd yn wag yn dilyn yr etholiad.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Mrs Mair Owen Piece am ei llafur a'i hymroddiad yn ystod ei thymor fel cadeirydd a dymunwyd yn dda i'r swyddogion newydd ac i'r Cynghorydd Gwen Griffith ar gael ei hail ethol i'r Cyngor Sir.

Etholwyd y Cynghorwyr Rhys M. Llwyd a Mrs Angharad Williams ar bwyllgor Canofan Tregarth, y Cynghorydd Mrs Einir Frodsham ar Bwyllgor Neuadd Goffa Mynydd Llandygái a'r Cynghorydd Mrs Mair Leverett ar Bwyllgor Neuadd Talgai. Bydd y Cynghorydd Mrs Mair Owen Pierce ar y Cydbwyllgor Gwarchod Cymunedol, y Cynghorydd Ms Lynn Ashton ar Lywodraethwyr Ysgol Bodfeurig, y Cynghorydd Emyr Parri ar Ysgol Tregarth a'r Cynghorydd Mrs Mair Leverett ar Ysgol Llandygái. Cynrychiolir y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru gan y Cynghorwyr Rhys M. Llwyd, Dafydd Owen a Mrs E. Frodsham. Bydd y Cynghorydd Dafydd Owen ar Dîm Prosiect Bangor a'r Cynghorydd Mrs Gwen Griffith yn cynrychioli mewn cyfarfodydd gyda'r heddlu. Y Cynghorydd Mrs Einir Frodsham fydd yn cynrychioli'r cyngor ar Bwyllgor Cyswllt Chwarel y Penrhyn.

Mae'r Cyngor Sir wedi trefnu i ymchwilio i broblem llifogydd a byddir yn cysylltu ynglŷn â baw ceffylau ar Lôn Las Ogwen a goleuadau cyhoeddus yn yr ardal. Penderfynwyd cefnogi llythyr Menter Iaith Dyffryn Ogwen ar Tesco.

D. E. HUGHES a'i feibion cyf

**YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF**

Ffôn a Ffacs 01248 602010

Llys Dafydd, Bethesda

Canolfan Awyr Agored
Dyffryn Ogwen

PRISIAU LLOGI

£10 am sesiwn o 4 awr
(e.e. 9.00 y bore i 1.00 y pwnn;
1.00 i 5.00 neu 5.00 i 9.00 yr hwyr

£10 yn ychwanegol am ddefnyddio'r
CIOSG

Gostyngiadau am ddiwrnod cyfan
£50.00 ychwanegol am logi pabell

Cysyllter â Caren Brown,
14 Ffordd Gerlan, Gerlan, Bethesda,
LL57 3ST (602509)

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod Nos Fawrth Mai 29 gyda Paul Rowlinson yn y gadair.

Llongyfarchwyd y cynghorwyr canlynol ar eu hethol yn enw Plaid Cymru:-

Cyngor Llandygai:

Emyr Parri, John Clifford Jones
ac Elin Sanderson

Cyngor Llanllechid:

Darelle Wyn Smith

Derbyniwyd newyddion da gan ysgrifennydd aelodaeth y gangen bod amryw o aelodau newydd wedi ymaelodi yn ystod y flwyddyn.

Yng ngweithlen Mai/Mehefin cafwyd neges gan Leanne Wood eto yn datgan bod nifer yr aelodau yn cynyddu ac mai ymlaen yw'r nod.

Cynhelir yr Ysgol Haf yn Llangrannog a'r Gynhadledd Genedlaethol yn Aberhonddu Medi 14-15.

Diolchwyd i bawb am eu gwaith ymgyrchu yn ystod yr etholiad sirol a llongyfarchwyd y Cynghorwyr Dafydd Meurig, Ann Williams a Dyfrig Jones ar ddod yn aelodau o Gyngor Gwynedd am dymor pellach. Diolchwyd hefyd i Dafydd Owen am ddod mor agos at lwyddiant yn dilyn ymgyrch galed yn Nhregarth a Mynydd Llandygai.

Yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn y chwarel ar hyn o bryd gyda llawer o'r gweithwyr ar bedwar diwrnod yr wythnos o waith trefnodd y Cynghorydd Ann Williams bod aelod y cynulliad Alun Ffred yn ymweld â'r chwarel gyda hi. Bydd yr A.C. yn codi'r mater yn y Cynulliad gan bod y sefyllfa yn creu pryder.

Trefnwyd ein bod yn cael stondin yn y sioe amaethyddol gyda gwahoddiad i Alun Ffred A.C. a Hywel Williams A.S. Bydd yr A.C. hefyd yn ymweld ag ysgolion Abercaseg a Phen y Bryn. Diolchwyd i'r tim Balchder Bro lleol am osod basgedi crog i harddu'r ardal.

Cyn terfynnu anrhegwyd Ceinwen Evans gyda phlanhigyn o degeirian am ei blynyddoedd o wasanaeth fel ysgrifennydd.

Cofiwch bod croeso i chi ymuno â Phlaid Cymru ar unrhyw adeg. Cysylltwch â Neville Hughes ar 01248 600853 neu nev_hughes@btinternet.com



Paul Rowlinson, Cadeirydd Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen yn cyflwyno rhodd i Ceinwen Evans, i ddiolch am ei holl waith fel ein Ysgrifennydd dros nifer o flynyddoedd.

CYSTADLEUAETH GOLFF EISTEDDFOD YR URDD

Dydd Sadwrn. Mai 19, cynhaliwyd Cystadleuaeth Golff arbennig ar Gwrs Golff Sant Deiniol. Cystadleuaeth oedd hon oedd wedi ei threfnu gan aelodau o Bwyllgor Apêl Codi Arian Bethesda a Llanllechid at Eisteddfod yr Urdd Eryri, pwyllgor bychan sydd wedi bod yn hynod o brysur dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn ceisio cyrraedd y targed o £19,000 a roddwyd i'r ardal. Trwy garedigrwydd Pwyllgor y Clwb Golff, a roddodd y cwrs inni am y diwrnod heb godi'r un geiniog, trefnwyd cystadleuaeth i dimau o 4, a chystadleuodd dros 90 o olffwyr, y mwyafrif helaeth yn aelodau o Glwb Golff Sant Deiniol. Llwyddodd y diwrnod i godi £685 at y targed, trwy dâl mynediad y cystadleuwyr a raffl arbennig a drefnwyd. Braff yw cael nodi fod targed yr ardal bellach wedi ei gyrraedd, diolch i nifer o weithgareddau amrywiol dros y cyfnod, cefnogaeth hael y Cynghorau Cymuned, ac unigolion lluosog a gyfrannodd o'u hamser ac yn ariannol.

Hoffai trefnwyr y diwrnod Golff ddiolch o galon i'r canlynol am noddi'r gwobrau.

C L Jones Bethesda, Cyflenwyr Defnyddiau Adeiladu; G L Jones Bethesda, Meysydd Chwarae; Modurdy Central, Bethesda; Tafarn y Tarw, Bethesda; Ron Jones, Adeiladwyr, Rachub; Modurdy Ffrydilas; Kenny Roberts, Toeau Bangor; Stephen Jones, Ymgwymerwr Angladdau, Bethesda; So Chic, Bangor.

Heb gefnogaeth hael y noddwyr, ni fyddai'r swm mawr o arian wedi bod yn bosibl.

Diolch, hefyd, i bawb a gyfrannodd wobrau at y raffl

Hoffem ddiolch yn arbennig i Bwyllgor Glwb Golff Sant Deiniol am ganiatau i ni ddefnyddio'r cwrs i gynnal y gystadleuaeth, ac i bawb a fu'n cystadlu yn ystod y dydd. Heb gefnogaeth y Clwb a'r aelodau ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn bosibl.

Canlyniadau'r Gystadleuaeth,

- 1 Aled Hughes, Alan Hughes, Steffan Evans, S Haynes, gyda sgôr o 121
- 2 A Gwyn Jones, JD Williams, Ieuan Roberts, Rhys Parry gyda sgôr o 119
- 3 Owen Blydenstein, Stephen Morris, Dafydd Pritchard, Siôn Morris gyda sgôr o 115
Y ddreif hiraf Mathew Baston
Agosaf at y twll: 8fed J Richards, 17eg Mathew Baston

Enillwyr y Raffl

- 1 Cyril Morris
- 2 Derek Owen
- 3 Mike Bryant
- 4 Gareth Jones
- 5 Kenny Roberts
- 6 Owain Rhys Morgan
- 7 Elin ac Eiry Owen
- 8 Sheila Phillips
- 9 Mike Bryant
- 10 Sioned Mai Jones
- 11 Nia Llwyd

Croesair Mehefin 2012

AR DRAWS


1. Gofyn pa reswm sydd i fynd yn ôl i gael golwg ar y map (3)
3. Ap mewn cilt (3)
5. Chdi barddonol efallai (4)
8. Siarad efo chi'ch hun, mewn drama weithiau (5)
9. Er y dryswch, mae oll yn deg wrth ei llusgo at y cyfrifiadur (7)
10. Un sy'n creu Cerdd Dant (7)
12. Sion, y cyflwynydd radio a theledu, ac yn fenywaidd (5)
13. Hattersley a Jenkins, hoelion wyth i Lafur gynt (3)
15. Gwaedd gymysg i ddangos bam (5)
17. Llestr pren i ddal cynnyrch y fuddai (3)
19. Haul a hindda, gwynt ac eira (5)
20. Wedi ein copïo ni, crewyd yr un bach pren (7)
23. Ffefrynnau E.R.II (1,6)
24. Gwynto'n ddrwg o'r de i'r gogledd (5)
25. Dangos perchnogaeth (4)
26. Mae un goch yn Llantysiliog (3)
27. Mynd efo'n gilydd (3)

I LAWR

1. Mae aelodau y grwp oll yn pendroni a thrafod (7)
2. Yr unig ŵr aeth i nôl y deg a'u malu, er i lawer iawn eu torri wedyn (5)
3. Amser byr i'r cyntaf ynghanol y rhai distaw (5)
4. Chaiff o nac aur nac arian nac efydd yn Llundain yn haf 2012 (5)
5. Gormod o drafnidiaeth ar y ffyrdd sy'n creu y rhain (7)

6. Cwyro a chaboli oedd yn cadw rhai derw Cymru ar eu gorau (7)
7. Ei ---- ; dweud pwy ydyw (4)
11. Mae o'n râl hen --- ; gallai fod yn Sais yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (3)
14. Gwneud eich hun yn ddewrach (7)
15. O'r plentyn i'r oedolyn (7)
16. Balm. (3)
18. Os i mewn y cadwch eich teimladau cymysg ni fedrwrch ei ddangos (7)
19. Mae gan giaffar Drefain ddau ohonynt, wan a tŵ (4)
20. Rhoi hergwd. (5)
21. Dryswch doniol heb yr hanner cant sy'n cytuno (5)
22. Hen arferiad Cymreig o grwydro'r wlad i ganu ac adrodd stori am eich bwyd a'ch cynhaliath (5)

- ATEBION CROESAIR MAI**
- AR DRAWS** 1. Gwresog; 5. Bwced; 8. Dethol; 9. Eithafol; 10. Tragwyddol; 12. Ein; 13. Cwt glo; 14. Iasoer; 17. Aer; 18. Diflaniad; 20. Amaethwr; 21. Amcan; 23. Cath ddu; 24. Dydd Gwyl.
- I LAWR** 1. Godot; 2. Ruth; 3. Sul, gwyl; 4. Gweiddi; 5. Bethel; 6. Cyfoethogi; 7. Delynor; 11. Anturiaeth; 13. Crafanc; 15. Arabaidd; 16. Y Foryd; 18. Dathlu; 19. Dynol; 22. Cyw.



Yr unig gamgymeriad y mis hwn oedd yr un a wnes i !!! Anghofiais roi cliw 22 I Lawr i chi. Ond gan eich bod yn griw mor ddeallus yr oedd yn amlwg i bawb ohonoch mai 'Cyw' oedd yr ateb, felly nid amharodd ar ymgais neb. Llongyfarchiadau am ddod yn gyntaf allan o'r het y mis yma i Dulcie Roberts, 1 Ffrwd Galed, Tregarth, LL57 4PF. Da iawn y gweddill ohonoch hefyd am atebion hollol gywir : Heulwen Evans, Dilys Parry, Jean

Vaughan Jones, Rhiwlas; E.E.Roberts, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Gareth W. Jones, Bow Street; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Jean Hughes, Talybont; Rosemary Williams, Tregarth; Ann Carran, Anne Smith, Rita Bullock, Bethesda. Atebion erbyn dydd Mercher, 4 Gorffennaf i 'Croesair Mehefin' Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

'Croesair Mehefin' Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Hysbysebwrch
eich gweithgareddau
AM DDIM
yn y Llais!
Cysylltwch â Neville Hughes
☎ 600853

CHWILAIR

Gobeithio na fydd hyn yn ormod o siom i chi gystadleuwyr y Chwilair, ond ni fydd y chwilair yn ymddangos am rhai misoedd eto. Hoffwn ddiolch yn fawr i chwi oll am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd, a hefyd am y cyfeillgarwch a'r hwyl o fis i fis.

Dyma atebion Mai: Argraffwyr, Banc, Cigydd, Clydwyr, Crydd, Ffotograffydd, Gwerthwr Ffrwythau, Gwesty, Masnachwr Glo, Meddyg, Peintiwyr Tai, Triniwr Gwallt.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir: Mair Jones, Ffordd Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Doris Shaw, Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas Bethesda; Llewela O'Brien, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd Bethesda; Herbert Griffiths, Tregarth.

Enillydd Mai oedd: Herbert Griffiths 46 Bro Syr Ifor Tregarth Bangor Gwynedd LL57 4AS

OWEN'S TREGARTH
Cludiant Preifat a Bws Mini

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475
pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies
Plymio a Gwresogi
Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

☎ Symudol 078184 10640
☎ 01248 601 466

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

NEUADD OGWEN,
BETHESDA

BOREAU COFFI



23 Mehefin: Eglwys Crist, Glanogwen
30 Mehefin: Eisteddfod Dyffryn Ogwen
07 Gorffennaf: Clwb Camera Dyffryn Ogwen
14 Gorffennaf: NSPCC
21 Gorffennaf: Eglwys y Gelli, Tregarth

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

NEUADD OGWEN BETHESDA GYRFA CHWIST

26 Mehefin
10, 24, 31 Gorffennaf
am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

CYLCH MEITHRIN CEFNFAES CYLCH TI A FI

FFAIR HAF

SADWRN 23 MEHEFIN
Lleoliad i'w gadarnhau
Dewch yn llu i gael hwyl.
Mwy o fanylion i ddilyn

Taith Gerdded Flynyddol

Llyn Ogwen i Fethesda

21 Gorffennaf 2012. Bws i Lyn Ogwen
o'r Clwb Rygbi am 11.30

Bydd cyfle am bicnic ar y daith

Bydd yr arian a godir yn cael ei rannu
rhwng Mudiad Canser a Lwcemia mewn
plant (Ysbyty Gwynedd), HYAS (Hawliau
Plant) gyda chyfraniad at daith Mali
Parry Owen i Hondwras i wneud gwaith
gwirfoddol.

Manylion gan Raymond neu Ann ar
01248 601077

Cymdeithas
Rhieni a Chyfeillion
Ysgol Glanaethwy

Nos Fercher 27 Mehefin

Cynhelir

Helfa Drysor

ar droed

ym Mharc Menai, Bangor
gyda

Soch Rhost

i ddilyn

£5 y pen gan gynnwys bwyd

Ymholiadau: 600627



14 Gorffennaf
Marchnad Cynnyrch Lleol

Llys Dafydd, Bethesda
LL52 3LU

10.00 – 2.00

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs

Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs

Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00

Trydydd Nos Lun pob mis

THE BLACK ARM BAND / 9BACH
YN CYFLWYNO /

MAMIAITH

Yn cysylltu carddorïaeth,
iaith a diwylliant Cymru
a chymuned cyniradrol
Awstralia...




Nos Iau

19.07.12 // 19.30 // £15

GALERI Caernarfon
01286 685 222
galericaernarfon.com



blackarmband.com.au
9Bach.com



GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Gwobr Dug Caeredin

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r disgyblion canlynol wedi bod yn brysur iawn yn ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin:

Llifon Ashton, Paul Jones, Rhys Williams, Tomos Lloyd-Williams, Ben Roberts, Chris Roberts, Ashley Williams, Simon Williams.

I gyrraedd y nod maent wedi gorffod:-



- * Chwarae gemau mabolgampau.
- * Helpu yn y gymuned gyda nifer o brosiectau i wella'r amgylchedd.
- * Dysgu sgiliau newydd fel adeiladwaith.
- * Cymryd rhan mewn cyrsiau awyr agored.
- * Cerdded 16 milltir gan wersylla am noson a chario popeth roedd arnynt ei angen ar eu cefnau.

Da iawn chi hogiau, ymdrech ragorol!

Pencampwr Bocsio Cymru

Llongyfarchiadau mawr i David Florence Blwyddyn 7 ar ddot yn bencampwr bocsio Cymru yn ei gategori pwysau.

Gwerthu Bwyd Iach

Diolch i gydweithfa fwyd newydd ('food cooperative') sydd wedi cael ei sefydlu yn yr ysgol, gall y staff fanteisio ar y cyfle i brynu llysiau a ffrwythau iachus a ffres am bris rhesymol. Mae'r gydweithfa yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo grwpiau cymunedol i redeg eu cydweithfeydd bwyd eu hunain. Mae gan y prosiect gysylltiadau a Her Iechyd Cymru a Newid am Oes.

Mae'r fenter yn cael ei rhedeg gan rai o ddisgyblion yr ysgol. Maent yn cael y cyfle i fod yn gyfrifol am reoli'r prosiect a gwerthu'r cynnyrch o'r gydweithfa fwyd.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd



Llongyfarchiadau i ddau ddisgybl sydd wedi ennill gwobrau yng nghystadlaethau gwaith cartref yr Urdd. Enillodd Gruffudd Jones y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth 3D i ddisgyblion Blynyddoedd 7,8 a 9,



a chafodd Buddug Roberts yr ail wobwr am gyfansoddi darn Rhyddiaith i flwyddyn 7. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Noson Cabaret!

Bydd disgyblion hŷn yr ysgol yn cynnal noson cabaret yn y Tŷ Golchi, Bangor ar nos Sadwrn, Mehefin 23. Dewch yn llu i fwynhau noson wefreiddiol o gerddoriaeth amrywiol gan unigolion, deuwadau ac ensemble lleisiol.

Bydd yr adloniant yn dechrau am 7.30 ond bydd bwyd ar gael i'w archebu o 6 o'r gloch ymlaen. Cysylltwch â'r Tŷ Golchi er mwyn bwcio bwrdd.

Bydd mynediad am ddim ond bydd cyfle i gyfrannu tuag at elusen Ymchwil Cancr Cymru. Edrychwn ymlaen i'ch gweld ar y noson.

Ysgol Llandygái

Cyngor Ysgol

Mae'r Cyngor Ysgol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ac wedi penderfynnu canolbwtio ar entrepreneuriaeth. Maent wedi cystadlu yng nghystadlaethau YR APRENTIS - yn meddwl am gynllun busnes newydd. Bydd y disgyblion buddugol yn cael y cyfle i sefydlu a chychwyn gweithio ar eu busnes newydd. Pob dymuniad da iddynt.

Tlws Chwaraeon i Bawb

Enillwyd y tlws am godi y swm uchaf o arian tuag at y fenter uchod gan Ddosbarth Awel- llongyfarchiadau mawr!!

Llysgennad Ifanc y Gemau Olympaidd

Dewiswyd Leon Hughes fel llysgennad ifanc i'r gemau Olympaidd ar ran yr ysgol a cafodd y profiad o weithio a chreu gwaith Celf ar y thema *Bangor* yn Ysgol Glancegin - profiad ardderchog.

Gemau Olympaidd Ysgolion Bangor

Bu rhai o ddigblion yr Adran Iau yn cystadlu yn frwd yn y gemau - cawsant y cyfle i wneud ffrindiau newydd yn ogystal â chael chrys T i gofio'r achlysur.

Dosbarth Gwawr

Fel rhan o'u thema Ein Byd Gwyrdd mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn creu paent newydd gyda gwahanol bowdwr ac wedi bod yn creu amrywiol bethau gyda bocsys - ailgylchu !!!

Dosbarth Heulwen

Mae'r disgyblion wedi bod yn paratoi at berfformio yn y Gwasanaeth Ysgol - thema y gwasanaeth oedd Y Fflam Olympaidd gan fod nifer ohonynt wedi gweld y dorch yn teithio o amgylch y fro yn ddiweddar.

Dosbarth Enfys a Thraed Bach

Bu y plant ar drip yn ddiweddar fel rhan o'u thema dosbarth - Trychfilod yr Ardd. Cawsant ddiwrnod i'w gofio yng nghwmni y pili pala gan ddysgu am gylch bywyd y trychfil lliwgar. Diolch i staff Pili Palas am eu croeso cynnes.

Ffair Haf

Cynhelir y ffair ar Nos Wener 29ain o Fehefin am 5 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Tregarth


Fflam Olympaidd

Diolch i bawb a drodd allan i gefnogi Andy Walling, tad Sally tra'n rhedeg gyda'r fflag Olympaidd ym Mangor. Roedd yn anrhydedd mawr i Andy ac yn destun balchder i'r teulu a'r ysgol. Gwisgodd nifer fawr o'r disgyblion ddillad yn lliwiau'r cylchoedd olympaidd ar Mai 28ed i gofio am y digwyddiad hanesyddol.

Ymweliad Ghana

Pob hwyl i Mrs Halliday, Miss Humphreys, Miss Rachel a Miss Bethan ar eu taith i'n ysgolion partner yn Ghana. Mae'r bedair yn edrych ymlaen yn fawr iawn at y profiad a'r antur yno.

Ffrâm Newydd



Bu cyffro mawr yn ddiweddar pan ddaeth ffrâm chwarae newydd i gaeau'r ysgol. Mae'r babanod wedi cael môr o hwyl yn dringo, sleidio, hongian a neidio!

Ysgol Bodfeurig



Plant Ysgol Bodfeurig yn croesawu Eisteddfod yr Urdd i Eryri

Gŵyl Tag Rygbi

Cafodd tîm rygbi yr ysgol ddiwrnod bendigedig ar gaeau rygbi Bethesda yn cymryd rhan mewn gŵyl Tag Rygbi. Cafwyd diwrnod prysur iawn yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill yr ardal a dyna braf oedd ennill gwobr ar ddiwedd y dydd am y tîm oedd wedi gwella fwyaf. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Macsen o flwyddyn 5 am gael y wobwr am y chwaraewr oedd wedi gwella ei sgiliau fwyaf.

Cystadleuaeth Diwrnod y Llyfr

Llongyfarchiadau mawr i Toby Cash o flwyddyn 2 am ennill un o 10 gwobr mewn cystadleuaeth i ddatlu Diwrnod y Llyfr. Roedd dros 730 o blant wedi cystadlu trwy greu llun o'u llyfr perffaith gyda'r frawddeg agoriadol berffaith. Da iawn ti Toby!

Staff yr ysgol

Hoffem groesawu Anti Kate i dîm staff yr ysgol. Mae Anti Kate wedi bod ar hyfforddiant yn yr ysgol ers blwyddyn ac rydym yn falch iawn ei bod wedi ymuno â ni yn swyddogol erbyn hyn!



Dymuniadau gorau i Anti Buddug sydd yn ein gadael i fynd i deithio. Pob dymuniad da i chi Anti Buddug a diolch am eich gwaith yn Ysgol Bodfeurig.

Ysgol Rhiwlas

Karate

Diolch unwaith eto i Sensei Sara a Sensei Bret am gynnal gweithdai Karate i'r Babanod ac i'r Iau. Gweithiodd pawb yn galed iawn. Da iawn am eich hymdrechion.

Diwrnod Rhyngwladol

Gwisgodd y plant a'r staff mewn gwisgoedd traddodiadol o Affrica, India, De America, Ffrainc, Tsiena a sawl gwlad arall. Roedd yr ysgol wedi ei gwedd-newid am y diwrnod. Bu'r plant yn trafod traddodiadau a diwylliannau sawl gwlad ar draws y byd. Bu gwledd o fwydydd blasus ar gael i'w blasu yn y prynhawn ac wedyn sesiwn ddawnsio traddodiadol Cymru, India a Gogledd America i gloi'r diwrnod.

Pennaeth Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Mr Iwan Davies ar ei benodiad fel Pennaeth newydd Ysgol Rhiwlas. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr at fis Medi. Yn sicr cewch groeso mawr yma gan bawb.

Pili Palas

Mae dros 50 o lindys wedi cyrraedd dosbarth y Babanod. Bu'r plant yn ddysgu am eu rhoi mewn cartrefi au bwydo. Maen't yn edrych ymlaen yn fawr i'w gweld yn tyfu.

Garage Band



Bu plant yr adran Iau yn cyfansoddi cerddoriaeth anhygoel gyda chymorth Cwmni William Mathias a Cynnal. Roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr ac i brofi eu doniau cafodd pob un C.D i fynd adra gyda'u cyfansoddiad arno. Y cwbl sydd angen rwan ydy i Mrs Green greu dawnsfeydd i gyd-fynd a'r miwsig.

Trosglwyddo

Braf oedd cael croesawu Mrs Anita Owen o Ysgol Dyffryn Ogwen atom. Cafodd cyfle i siarad gyda Lucy a Nia sy'n trosglwyddo yno mis Medi ac mae'r ddwy yn edrych ymlaen yn fawr i fynd yno i ymweld yn fuan.

Huw Warren a'i Fand Jazz

Wel, am lwcus – pwy alwodd draw i'r ysgol ond Huw Warren a Band Jazz. Gwrandawodd y plant am awr gyfan heb symud (ond am gyfnod o ddawnsio i'r gerddoriaeth!) ac wedyn cael cyfle i chwarae rhai offerynnau. Mawr yw ein diolch i Mrs Carol Williams am drefnu'r ymweliad.

Rhieni wedi helpu i ddatblygu ardal tu allan.

Diolch hefyd i'r rhieni a fu'n gweithio'n galed yn datblygu'r ardal tu allan i blant y Cyfnod Sylfaen. Bu'r plant hefyd yn peintio'r tŷ bach tu allan gyda Mrs Halstead.



Anfonwch eich newyddion at olygydd y mis erbyn dydd Mercher 4 Gorffennaf os gwelwch yn dda.

**Golygydd Mis Gorffennaf fydd Dewi A. Morgan,
Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda
LL57 3DT (01248) 602440.
dewimorgan@fsmail.net**

Ysgol Llanllechid

Glanllyn

Er nad oedd y tywydd yn rhy ffafriol, cafwyd hwyl a sbri yn Glanllyn unwaith yn rhagor eleni. Cafodd y plant fodd i fyw yn ymwneud â'r gwahol weithgareddau. Daeth pawb yn ôl yn canmol yr ymweliad i'r cymylau.

Blaen y Nant /Parc Meurig Bl 3 a 4

Dyna lwcus yw Mr Gwyn Tomos, - cael byw mewn lle mor braf! Cafodd dosbarthiadau Blynnydoedd 3 a 4 groeso arbennig ym Mlaen y Nant, yn dysgu am ffermio a nodweddion arbennig y tir o amgylch ei gartref. Cawsom fynd i astudio planhigion gwyllt ym Mharc Meurig yn ystod y pwan. Diolch i Mr Dafydd Cadwaladr.

Rygbi

Llongyfarchiadau i'r holl chwaraewyr rygbi a fu'n chwarae yn y gystadleuaeth rygbi tag yng nghlwb rygbi Bethesda yn ddiweddar. Bu cystadlu brwdfrydig drwy'r dydd. Diolch i Goleg Menai am drefnu a diolch i Glwb Rygbi Bethesda.

Dosbarth Derbyn – Canolfan Arddio

Aeth y Dosbarth Derbyn i ganolfan arddio Fron Goch yn ddiweddar i ddysgu am y planhigion. Mae'n werth i chi weld y pennau gwair bendigedig a dyfwyd gan fysedd bach gwyrdd y plant wedi'r ymweliad!

Mr Northam – Ysgol Werdd

Croesawyd Mr Northam i'r ysgol yn ddiweddar i drafod y sbwriel sydd ar Lôn Fach Odro. Rhoddodd sgwrs ddfyr ar ôl y gwasaneth, a chyfrannu syniadau ar sut i leihau gwastraff. Cafodd rhai o'r plant gyfle i grwydro ar hyd Lôn Bach Odro yn codi sbwriel a'i ddadansoddi yng nghwmni Mr Northam a Mr Rowlinson. Diolch yn fawr i chi eich dau.

Ar Gof a Chadw

Mae Mr Huw Edward Jones a nifer o blant yr ysgol wedi bod yn brysyr iawn yn ymarfer ar gyfer 'Pasiant y Plant' Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Pob hwyl i'r plant i gyd a da iawn chi am wneud eich gorau. Mae'r sioe'n werth ei gweld.

Bisgedi Mr Urdd



Fel rhan o'n dathliadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, cafwyd y plant gyfle i flasu bisgedi hyfryd Mr Urdd a wnaethpwyd gan staff y gegin. Roedd Dafydd Roberts, Cara Trow, Melanie Morgan, Jack Owen a Jack Llwyd wrth eu boddau'n mwynhau y bisgedi hyfryd. Diolch i Mrs Shirley Hartleb, Mrs Margaret Jones, Mrs Heather Williams a Mrs Carol Roberts am greu'r campweithiau.

Catherine Aran

Cafodd Blynnydoedd 5 a 6 weithdy bendigedig yng nghwmni Cathrin Aran. Bu i bawb elwa'n fawr o'r sesiwn. Diolch i Cath am brofiadau arbennig.

Llechi Cerfiedig

Fel rhan o thema'r 'Ardal Leol', cafwyd Blynnydoedd 1 a 2 weld esiamplau o lechi cerfiedig yr ardal. Daeth Mrs Gwen Swann, [sef Miss Gwen, -un o gymorthyddion yr ysgol] ag enghreifftiau o'r llechi i ddangos i'r plant, ac roedd pawb wrth eu boddau gyda'r siapiau hyfryd, a'r hanes sy'n gefndir i'r arferiad. Mae Miss Gwen yn wyres i Gwenno Caffel, a fu'n flaenllaw iawn yn yr ardal yn ymchwilio i'r grefft, ac yn casglu ffotograffau o'r llechi cerfiedig, gan gofnodi'r cyfan yn drefnus mewn llyfr.



Gwaith Celf Ysgol Llanllechid

Ysgol Pen-y-bryn

Dŵr Cymru

Ar 3 Mai cafwyd diwrnod llawn gwybodaeth a gweithgareddau gan Ms Clare Jones o Dŵr Cymru. Bu'r plant yn dysgu o ble mae dŵr yn dod, beth sydd yn digwydd i ddŵr a sut y mae arbed dŵr. Diolch yn fawr iawn Ms Jones am ddod atom.

Noson Gwricwlaidd

Ar 10 Mai cynhaliwyd Noson Gwricwlaidd i rieni. Cafwyd cyflwyniadau gan bob dosbarth ynglŷn â'r math o waith a gweithgareddau y maent yn eu gwneud yn eu dosbarthiadau. Cafwyd hefyd gyflwyniadau gan y Cyngor Ysgol, y Grŵp Effeithiolrwydd (Plant Pesda) a'r Cyngor Chwaraeon. Roedd yn noson hynod lwyddiannus a braf oedd gweld llond neuadd o bobl a phlant. Diolch yn fawr iawn i'r plant am eu holl waith caled a diolch i bawb am eu cenfogaeth unwaith yn rhagor.

Rygbi



Yn ddiweddar trefnwyd cystadleuaeth tag rygbi ar gae Dôl Ddafydd gan fyfyrwyr HND Coleg Menai. Bu cystadlu brwd rhwng timau o ferched a bechgyn ysgolion yr ardal. Sgoriwyd nifer fawr o geisiau cofiadwy a gwelwyd ambell i seren y dyfodol bid siŵr! Ar derfyn y cystadlu, daeth un o dimau Pen-y-bryn i'r brig a mawr oedd y dathlu wrth i'r tlws a'r medalau gael eu rhannu. Diolch i bawb a weithiodd yn galed i drefnu'r diwrnod a phob llwyddiant i'r myfyrwyr gyda gweddill eu cwrs.

Eglwys Glanogwen

Yn ystod y mis bu pob dosbarth yn ymweld ag Eglwys Glanogwen. Cafwyd y croeso arferol gan y ficer, Mrs Nia Williams a diddorol tu hwnt oedd cael dysgu am y gwahanol nodweddion a seremonïau yno. Trist fydd eich gweld yn ein gadael, ond hoffem ddymuno'n dda iawn i chi Mrs Williams yn eich swydd newydd yng Nghadeirlan Bangor.

Mrs Brenda Wyn Jones

Hoffai plant Glyder ac Elidir ddiolch yn fawr iawn i Mrs Brenda Wyn

Jones am ddod atom ni ar 23 Mai. Bu'n trin a thrafod y llyfr 'Bwli a Bradwr' gyda phlant Elidir ac yn adrodd straeon am gewri'r byd gyda phlant Glyder wedi iddynt astudio'r llyfr 'Campau Saith Cawr'. Mae bob amser yn bleser eich cael chi yma a mawr yw ein diolch i chi!

Criced

Mae plant Glyder wedi elwa'n fawr o'r sesiynau criced gyda Nicola o Blas Ffrancon. Maent wedi datblygu amrywiaeth o sgiliau pwysig ac edrychwn ymlaen at y twrnament a'r Clwb Criced. Diolch yn fawr Nicola am eich holl waith caled!

Hefyd, llongyfarchiadau gwresog i Mathew Buchanan am gael ei ddewis i chwarae criced i Gymru. Dymunwn yn dda i ti!

Ysgol Abercaseg

Tripiau

Bu mis Mai yn fis anturus iawn yn yr ysgol gyda'r dosbarthiadau derbyn a blynyddoedd 1 a 2 yn mynd ar dripiâu addysgol. Gan mai 'Yn yr Ardd' yw thema Dosbarth Ffrancon, bu i'r disgyblion ymweld yn gyntaf â Chanolfan Arddio Petre Berw ac yna gorffen y trip drwy fynd i Pili Palas. Cafwyd diwrnod gwerth chweil gyda phawb wedi dysgu llawer. Fel rhan o'r gwaith ar y thema 'Môr', bu dosbarthiadau Tryfan, Ogwen a Llafar draw i Fiwmares a Phenmon. Ymhlith y llefydd a'r adeiladau y buont yn ymweld â hwy roedd y castell, y goleudy ac amgueddfa'r bad achub. Mae'n debyg mai'r uchafbwynt, fodd bynnag, oedd bwyta'r hufen iâ ym Miwmares, yn arbennig o gofio ei bod hi'n ddiwrnod crasboeth!



Tŷ Gobaith

Bu'r plant unwaith eto'r tymor yma yn brysur yn codi arian at Tŷ Gobaith drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Codi'r Tô'. Llwyddwyd i gasglu £324.48 tuag at yr achos. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos haeddianol yma.

Gardd Ysgol

Wel, y mae'r adeg wedi cyrraedd unwaith eto i dorchi ein llewys a chael yr ardd ysgol i drefn a diolch i Yncl Ken a staff yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ein helpu gyda'r chwynu a'r plannu!

Cafodd pawb hwyl yn plannu a dyfrio yn ystod y tywydd braf, ac mae yna hen edrych ymlaen at gael bwyta'r cynnyrch ar ôl iddynt dyfu.



Pencampwr



Llongyfarchiadau i David Florence o Frondeg Uchaf Tregarth ar ei lwyddiant ym mhencampwriaeth bocsiu WABA yng Nghaerdydd lle enillodd wobwr Pencampwr Iau Ysgolion Cymru ar 19 Mai. Mae David ym Mlwyddyn 7 Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn aelod o glwb bocsiu ABC Caernarfon, Llongyfarchiadau mawr iddo ar ei lwyddiant.

Llongyfarchiadau i bob ysgol o'r ardal a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd ym Mharc Glynllifon eleni - ac i bawb a gymerodd ran wrth gwrs. Diau y cawn wybod mwy am yr hwyl a'r miri yn rhifyn nesaf y Llais.

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



CYNGRAIR DOMINOS BETHESDA

Mae nos Fawrth, y noson ddominos, yn noson o ddifri yng nghalendr y rhai sydd yn cymeryd rhan, gyda llai o densiwn yn adeiladau'r Senedd a'r Cenhedloedd Unedig. Ond wedi tymor yn llawn cynnwfr a dadlau daeth y cyfan i ben yn nhafarn y Llangollen ar nos Fawrth y 22ain o Fai gyda thim Pen y Brenin yn cael eu hanrhydeddu fel pencampwyr y tymor a thîm y Clwb Criced yn ail. Yr un noson daeth buddigoliaeth i Bull "B" wrth iddynt guro Pen y Brenin yn nghystadlaeaeth cwpan y tymor. Peter Jones Bull "A" enillodd merit y tymor, Dick Moore ac Alan Jones (Llangollen) oedd pencampwyr y gystadlaeaeth dwbl a Richard Berwyn (Dick Bers) oedd pencampwr y gystadlaeaeth sengl. Ond nid dyma oedd y diwedd mewn difri, oherwydd wythnos yn ddiweddarach chwaraeodd enillwyr y gwpan yn erbyn enillwyr y tymor gyda buddigoliaeth i Pen y Brenin a Dick Bers yn chwaraewr goruchaf. Ond wedi anrhydeddu yr enillwyr am eu buddigoliaeth roedd un wobwr i'w chyflwyno, sef gwobr achlysurol gan bwyllgor y gyngrair i'r gŵr bonheddig Mr Alan Sullivan, a gafodd ei gyflwyno gyda thlws: "Llaw ora y tymor!"



Tîm Bull "B"
Enillwyr y gwpan



Pen y Brenin
Pencampwyr y Tymor

Tîm Rygbi dan 14 oed Bethesda



Dyma lun o'r hogia ar ddiwrnod gêm olaf y tymor yn Llangefni

Rhes Gefn: (O'r chwith) Cai Jones, Osian Jones, Jake Williams, Ashley Rowlands, Kye Thomas, Iwan Roberts, Morgan Roberts, Lewis Hall.

Rhes Flaen: (O'r chwith): Rhun Morris, David Wyn, Harri Phillips. Iago Davies, Gethin Harper, Mathew Griffiths, Steffan Owain.

(Diolch i Dafydd Rowlands, Rachub am y llun)

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab**

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturss@googlemail.com

**Tony
Twomey**

**Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig**

**Gwneir unhyw waith,
mewnol ac allanol.**

Ffôn Symudol:

07796156829

Tŷ: 01248 602039



"J.R."

SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

TŶ ISAF YN CAU

Truenus yw gweld unrhyw fusnes yn cau yn yr ardal, a bellach mae clywed y newydd bod siop neu fusnes yn cau ei drysau ar y stryd fawr wedi dod yn beth cyffredin.



Wedi noson nad yw'n addas ei manylu arni yn y papur yma, caewyd drysau Tŷ Isaf am y tro olaf ar y 19eg o Fai, neu y diwrnod canlynol i fod yn hollol gywir. Agorwyd yr adeilad yn ôl fel tafarn gan Janice a Keith yn Nhachwedd 2001 wedi blynyddoedd o fod ar agor fel Tŷ Bwyta gan Jessie a'r diweddar Norman. Dros y blynyddoedd mae staff a chwsmeriaid wedi mynd a dod ac eithrio un aelod parhaol o'r staff oedd yn wastad yn fonheddig a

chroesawgar (heblaw am ambell i brynhawn Sul) ac un cwsmer penodol oedd yn mynnu meddiannu ei sedd yn y gornel. Roedd yn bosibl amseru pa bryd oedd pobl yn mynd i gerdded trwy'r drws, yn ôl hir-arferiad - rhai ar ôl gwaith ac eraill yn defnyddio'r dafarn fel ystafell aros am eu prydau indian neu tseiniaedd. Eraill yn ymddangos ar drothrwy'r penwythnos i ddi-ddanu gyda digwyddiadau'r wythnos, megis hanesion y gwaith neu hanes ceiliog yn cam-ymddwyn. Dafydd Disco oedd yn gyfrifol am yr adloniant ar nos Sadyrnau, ac hyd at ei ymdeoliad fel diddanwr carioci, Martin Ryder oedd yn hybu pobl i ddod i berfformio ar y meic a chafwyd ambell i berfformiad... anghofiadwy a dweud y lleiaf ond bod Martin wastad yn canu clod yr ymgeiswyr.

Roedd y dafarn, fel unrhyw dafarn yn y Dyffryn yn lleoliad i nifer o ddigwyddiadau (eto ambell i ddigwyddiad nad yw'n addas ei rannu) gan gynnwys un direidydd oedd yn gorfodi'r tafarnwr i guddio ei baned rhag iddi ddiflannu o flaen ei drwyn fel y diflannodd pryd ar glud un o'r cwsmeriaid un noson. Ond un digwyddiad y mae'n hanfodol ei rannu oedd y drafodaeth rhwng un o selogion y dafarn ac ymwelydd ryw nos Lun y llynedd. Roedd y selog yn ddrwg-enwog am dynnu coes ond i'r ychydig oedd yn ddigon ffodus fod yno y noson honno, roedd hon yn glasur

i'w thrysori ac i'w ailadrodd am flynyddoedd i ddod.

Trodd y selog tuag at yr ymwelydd ac yng nghlyw pawb yn y dafarn dywedodd wrth yr ymwelydd diarwybod.

"Haf iw hyrd ddat Bangor piar has bin stolyn?"

"Wot, siriy?"

"Ies, ddei got yp in Bangor ddis morning and it was gon! It myst haf bin towd awe in ddy nait"

"Iw'd thinc ddeid scrw it on wdyntiw."

"It was scrwd on, ddei myst haf had a big bot"

"Ddei myst haf towd it to Liferpwl or symwer."

"Myst haf"

Bu'n chwith i'r stryd fawr ei golli a phob lwc i Jan a Keith yn y dyfodol.

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tseineidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆

Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

Aduniad '68



Cychwynwyd ar y daith ym mis Mawrth pan gafodd Alwyn Llwyd y syniad y buasai'n dda gweld y criw a gafodd Lefel O yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn 1968 unwaith eto. Un o'r rhesymau dros gyfarfod y flwyddyn hon oedd ein bod i gyd wedi cyrraedd, neu ar gyrraedd, oed arbennig.

Rhaid rhoi cloc mawr i Als oherwydd mai ei ddyenwch ef yn dod o hyd i bawb a'i gwnaeth yn bosibl cynnal y noson a'i gwneud yn llwyddiant. Roedd dod ag 19 ohnom at ein gilydd yn gryn gamp.

Cynhaliwyd y noson yng Nghlwb Golff Deiniol, Bangor, ar nos Sadwrn 12 Mai a chawsom noson o atgofion hapus yng nghwmni ein gilydd, gyda nifer o luniau i'n hatgoffa o wahanol ddigwyddiadau. Braff oedd cofio'n ôl a chael cyfle i gofio'n annwyl am y rhai a gollwyd.

Rydym fel criw bellach yn byw yng Nghymru, Lloegr a Chanada.

Dioch i Siân o'r clwb am baratoi bwyd bendigedig, ac yn enwedig am y gacen arbennig - syrpreis Als eto! Diolch Als. Mae'n siŵr y bydd llawer mwy o gadw cysylltiad bellach, yn enwedig yn yr oes dechnolegol hon.

Gan ei bod yn noson mor braff roedd yn dda cael tynnu llun gyda Dyffryn Ogwen a mynyddoedd Eryri yn y cefndir. Ble well i gael addysg ynte!

Dyma enwau pawb sydd yn y llun (eu henwau tra roeddent yn yr ysgol):

Elwyn Hughes, Selwyn Thomas, Alma Roberts, Carol Jones, Nia Hughes, Adrian Woodward, Mary Edwards, Alwyn Jones, Orina Williams, Dafydd Arfon Jones, Margaret Pritchard, Tony Ryan, Avril Owen, Gillian Logan, Richard Alwyn Jones, Iona Evans, Gillian Williams, Liz Parry. (Heb gyrraedd erbyn y llun - Lilian Edwards)

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Da oedd clywed bod Gwen Griffith wedi llwyddo yn etholiadau Cyngor Gwynedd, gan ddyblu ei mwyafrif. Dymunwn yn dda iddi yn ei gwaith fel cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

Yn ystod mis Mai cafwyd y cyfarfod misol arferol yng Nghanolfan Cefnfaes. Cafwyd adroddiad am Gyngor Gwynedd (e.e. manylion am arbedion mawrion, a'r cytundeb rhwng Plaid Cymru a'r Plaid Lafur). Cafwyd adroddiad hefyd o Gyngor Bethesda, er engraifft am y gwelliannau posibl i Neuadd Ogwen a'r wifren wib dros chwarel y Penrhyn, yn ogystal â chrynodeb o benderfyniadau'r cynghorau eraill.

Ym mys materion eraill, penderfynwyd galw am wasanaeth dwyieithog ac arwyddion dwyieithog yn siop newydd Tesco ym Methesda, hynny yw galw am sylw teilwng i'r Gymraeg.

Ar ddiwedd y mis, aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod yng Nghyffordd Llandudno i wrando ar Margaret Hanson a Tal Michael a chafwyd cyfle i'w holi. Mae'r ddau eisiau cynrychioli'r Plaid Lafur yn yr etholiad ar gyfer comisiynydd yr heddlu a gynhelir ym mis Tachwedd eleni.

Cyfarfod nesaf y gangen fydd y Cyfarfod Blynyddol a gynhelir am 7.30 yng Nghanolfan Cefnfaes ar 27 Mehefin.

Addewid Deg Awr Parc Meurig

Mae criw o bobl ifanc o glwb leuenctid Bethesda wedi dod at ei gilydd i gydweithio â Mark Balaam, (Uwch Warden Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) sydd yn brysur yn dylunio a datblygu amrywiaeth o brosiectau yn y Parc. Penderfynwyd cychwyn drwy glirio'r hen gwrn tennis sydd yn y parc gyferbyn â phont yr Inn. Yna symudwyd ymlaen i chwilio am ffynhonnell o arian y gellid ei ddefnyddio i'w ailsefydlu fel cwrt tennis. Penderfynodd y bobl ifanc, efallai y buasai'n well syniad ei ddatblygu fel cwrt amlweithgaredd er mwyn ateb gofynion eangach yn y gymuned. O ganlyniad i hyn mae llawer mwy o syniadau wedi esblygu.



Y bwriad yw datblygu'r prosiect ymhellach drwy ffurfio grŵp ffurfiol sy'n barod i geisio am grantiau i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau cymunedol ar y cyd rhwng Mark, Cyngor Gwynedd a'r gymuned leol. Nid prosiect ar gyfer y bobl ifanc yn unig yw hwn ond prosiect ar gyfer Bethesda gyfan. Mae'r prosiect yn ceisio annog ac addysgu pawb ynglŷn â'r amrywiaeth o fywyd gwyllt a'r amgylchfyd sydd ar riniog ein drws yma ym Methesda, pleserau iach y gall pawb eu mwynhau yn rhad ac am ddim trwy'r flwyddyn beth bynnag fo'r tywydd.

Nid cyfraniad ymarferol yn unig sydd ei angen ar y prosiect hwn ond cyfraniad cymunedol. Efallai eich bod yn gwybod am enwau gwahanol byllau ar hyd afon Ogwen sydd wedi cael eu trosglwyddo ar lafar ers blynnyddoedd neu efallai eich bod yn gwybod enwau rhai o'r pontydd. Tybed a ydych chi wedi bod â'ch ci am dro drwy'r parc ac wedi meddwl rhyw dro y buasai'n braf datblygu rhywle lle gallech ollwng eich ci yn rhydd heb i bawb gwyno neu edrych arnoch chi fel pe baech chi'n berchennog anghyfrifol? Ydych chi'n un da am adnabod enwau coed a blodau'r maes yn Gymraeg ac yn Saesneg? Ydych chi'n mwynhau rhedeg neu yn mwynhau cadw'n heini ac â diddordeb mewn datblygu trac neu gyfarpar syml? Ydych chi'n riant ac yn meddwl efallai y buasai'n braf mynd am dro gyda'r plant lle nad oes angen defnyddio'r car? Efallai eich bod â diddordeb mawr mewn bywyd gwyllt yn y parc a'ch bod â diddordeb mewn creu pyllau dŵr? Beth bynnag eich blys neu eich diddordeb mae yna gyfle i bawb wneud rhywbeth ynglŷn â hyn drwy gydweithio a chyfrannu ychydig o'ch amser. Peidiwch â dweud nad oes yna ddim i'w wneud ym Methesda yr haf yma oherwydd mae yna domen o waith i'w wneud ym Mharc Meurig ac wrth gwrs efallai y cewch hwyl wrth wneud hynny.

Pe bai pawb ym Methesda yn gwneud addewid i roi deg awr o'u hamser i'r prosiect hwn, meddyliwch beth allai gael ei wneud?

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Marc Balaam, Uwch Warden Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd, neu Stephen Roberts, 4, Sheffield House, Ffordd Carneddi.

Y cam cyntaf yw sefydlu'r pwyllgor ac efallai mai sefydlu'r pwyllgor fydd eich cyfraniad chi o ddeg awr! Mae'r prosiect hwn yn agored i bawb yn ddiwahân.

Y LLANGOLLEN BETHESDA (01248) 600491

BWYDLEN NEWYDD

Dydd Llun		5.00 - 8.30
Dydd Mawrth	12.00 - 2.00/	5.00-8.30
Dydd Mercher	12.00 - 2.00/	5.00-8.30
Dydd Iau	12.00-2.00/	5.00-8.30
Dydd Gwener	12.00-2.00/	5.00-8.30
Dydd Sadwrn	12.00-2.00/	5.00-8.30
Dydd Sul	12.00-2.00	



NOSWEITHIAU CYRI A PHEINT A
PIZZA A PHEINT YN DOD YN FUAN

CERDDORIAETH FYW



GALWCH AM
FANYLION



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunfred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk